**Arolygiad o dan Adran 28**
**Deddf Addysg 2005**

**Adroddiad ar ansawdd addysg yn**

**Ysgol Bro Banw**
**Stryd Fawr**
**Rhydaman**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA18 2NS**

**Rhif yr ysgol: 6692392**

**Dyddiad yr arolygiad: 26 Ebrill 2010**

**gan**

**Rhiannon Harris**
**78850**

**Dyddiad cyhoeddi: 30 Mehefin 2010**

**O dan rif contract Estyn: 1124809**

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2010: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael o'r ysgol. O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad yn ddi-dâl i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost ailgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

## Cyflwyniad

Arolygwyd Ysgol Bro Banw fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a gwella'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Bwriedir i arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd roi mwy o wybodaeth i rieni am berfformiad ysgol eu plentyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad o Ysgol Bro Banw rhwng 26/04/10 and 29/04/10, gan dîm annibynnol o arolygwyr, wedi'u harwain gan Rhiannon Harris. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol ar, ond a ariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth a'r cyfraniad a wneir gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Mae adroddiadau Estyn yn dilyn ei arweiniad ar gyfer ysgrifennu a golygu adroddiadau, sydd ar gael ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk). Mae'r tabl isod yn dangos y termau a ddefnyddir gan Estyn a syniad bras o'u hystyr. Mae'r tabl ar gyfer rhoi arweiniad yn unig.

| | |
|---|---|
| **Bron pob un** | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| **Y rhan fwyaf** | 90% neu fwy |
| **Llawer** | 70% neu fwy |
| **Mwyafrif** | dros 60% |
| **Hanner/tua hanner** | yn agos 50% |
| **Lleiafrif** | islaw 40% |
| **Rhai** | islaw 20% |
| **Ychydig iawn** | llai na 10% |

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

**Gradd 1** da gyda nodweddion rhagorol
**Gradd 2** nodweddion da a dim diffygion pwysig
**Gradd 3** nodweddion da'n gorbwyso diffygion
**Gradd 4** rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
**Gradd 5** llawer o ddiffygion pwysig

Mae tri math o arolygiad.

Ar gyfer **pob** arolygiad, ceir adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol.

Ar gyfer arolygiadau **byr**, ni cheir unrhyw adroddiadau pwnc.

Ar gyfer arolygiadau **safonol**, ceir adroddiadau ar chwe phwnc hefyd.

Ar gyfer arolygiadau **llawn**, ceir adroddiadau ar bob pwnc hefyd.

**Estyn sy'n penderfynu pa fath o arolygiad y bydd ysgol yn ei gael, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cael arolygiad safonol. Mae pob ysgol feithrin, ysgol arbennig, unedau cyfeirio disgyblion ac unrhyw ysgol newydd neu ysgol sydd wedi uno yn cael arolygiad llawn.**

Cafodd yr ysgol hon arolygiad **llawn**.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed.  Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.  Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati.  Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Sector uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ymdrin â phedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyd-destun** | **1** |
| **Crynodeb** | **2** |
| **Argymhellion** | **8** |
| **Safonau** | 9 |
| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? | 9 |
| **Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant** | **12** |
| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu? | 12 |
| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? | 14 |
| Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr? | 16 |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **19** |
| Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol? | 19 |
| Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? | 20 |
| Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? | 21 |
| **Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu** | **23** |
| Cyfnod Sylfaen | 23 |
| Cymraeg iaith cyntaf | 27 |
| Saesneg | 28 |
| Cymraeg ail iaith | 29 |
| Mathemateg | 30 |
| Gwyddoniaeth | 32 |
| Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu | 33 |
| Dylunio a thechnoleg | 34 |
| Hanes | 35 |
| Daearyddiaeth | 37 |
| Celf a dylunio | 38 |
| Cerddoriaeth | 39 |
| Addysg gorfforol | 40 |
| Addysg grefyddol | 41 |
| **Ymateb yr ysgol i'r arolygiad** | **42** |
| **Atodiadau** | 43 |
| 1 Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol | 43 |
| 2 Data a dangosyddion ysgol | 43 |
| 3 Canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol | 44 |
| 4 Sail dystiolaeth yr arolygiad | 46 |

| 5 | Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu | 47 |
|---|---|---|

## Cyd-destun

### Natur y darparwr

1 Mae Ysgol Bro Banw wedi ei lleoli yn nhref Rhydaman a chaiff ei chynnal gan Awdurdod Addysg Sir Gaerfyrddin (AALl). Mae adran fabanod yr ysgol a'r Unedau Asesu ac Iaith wedi eu lleoli ar gyrion y dref, gyda'r adran iau a'r Uned Anghenion Arbennig yng nghanol y dref.

2 Gwasanaetha'r ysgol y gymuned leol ond mae tua hanner y disgyblion yn teithio o ardal ehangach i'r Unedau Asesu, yr Uned Iaith a'r Uned Anghenion Arbennig. Mae'r ysgol yn datgan er bod tua 25% o'i disgyblion yn dod o gefndir nad yw'n freintiedig yn economaidd nac ychwaith dan anfantais, daw llawer o gefndir mwy difreintiedig. Mae disgyblion yn cynrychioli'r ystod lawn o allu.

3 Mae 22% o'r disgyblion â'r hawl i brydau ysgol am ddim, ffigur sydd yn uwch na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Mae 184 o ddisgyblion, gan gynnwys rhai o'r brif ffrwd, y tri dosbarth arbennig yn yr adran fabanod a'r Uned Arbennig (sydd hefyd â 15 disgybl sydd yn 11 oed neu fwy), rhyw 44%, wedi eu dynodi ag anghenion addysgol arbennig (AAA). Mae gan 38 o'r rhain ddatganiad ar gyfer AAA. Gofelir am 10 disgybl gan yr AALl.

4 Mae'r ysgol wedi ei dynodi'n ysgol Categori A/B o dan bolisi iaith yr AALl gyda disgyblion y brif ffrwd yn cael eu gosod yn ieithyddol. Mae'r Gymraeg yn brif gyfrwng yr addysgu mewn pum dosbarth ac addysgir 16 dosbarth trwy gyfrwng y Saesneg, gyda'r Gymraeg yn cael ei addysgu fel ail iaith. Daw tua 8% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn famiaith. Caiff disgyblion cyfnod allweddol (CA) 2 hefyd eu gosod yn ôl gallu ar gyfer y pynciau craidd. Daw rhyw 1% o'r disgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol ac mae 1% yn derbyn cymorth addysgu mewn Saesneg fel iaith ychwanegol. Nid oes unrhyw ddisgybl wedi ei wahardd yn ystod y 12 mis diwethaf.

5 Ar hyn o bryd, mae 411 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 32 plentyn meithrin sydd yn mynychu'n llawn amser, a 15 disgybl o oed uwchradd yn yr Uned Arbennig. Mae niferoedd wedi gostwng ychydig dros y tair blynedd diwethaf. Caiff disgyblion eu rhannu i 21 dosbarth, tri o'r rhain yn cynnwys disgyblion o'r un flwyddyn ysgol gyda'r 18 sy'n weddill yn cynnwys disgyblion o ddwy flynedd ysgol neu fwy. Mae'r ysgol ar hyn o bryd yn cyflogi 23 o athrawon, gan gynnwys y pennaeth a phedwar athro rhan-amser. Mae tair athrawes ar gyfnod mamolaeth ar hyn o bryd.

6 Sefydlwyd Ysgol Bro Banw yn 2008 trwy uno Ysgol Babanod Rhydaman, Ysgol Iau Rhydaman a'r Uned Arbennig. Mae'r ysgol yn parhau i weithredu ar y tri safle ac yn disgwyl canlyniad arolygiad ymgynghorol a fydd yn pennu ei lleoliad yn y dyfodol. Ar y cyfan, mae'r tri adeilad mewn cyflwr da.

7 Cafodd yr ysgolion a ffurfiodd Ysgol Bro Banw eu harolygu ym Mai 2006 ac Ionawr 2008. Trosglwyddwyd y pennaeth i reoli'r ysgol newydd yn Ebrill 2005, a chafodd ei phenodi'n barhaol ym Medi 2008. Cafodd y dirprwy bennaeth hefyd ei phenodi yn 2008.

### Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

8 Blaenoriaethau'r ysgol yw:

- anelu at gynhyrchu pobl ifanc annibynnol a dibynadwy;
- ymdrechu i ddatblygu potensial disgyblion yn llawn, yn academaidd, yn bersonol ac yn gymdeithasol trwy ddarparu addysgu a dysgu o ansawdd;
- trwy hunan arfarnu parhaus, darparu cyfleoedd addysgu ar gyfer dysgu ardderchog a chael y disgwyliadau uchaf; a
- chydnabod fod partneriaeth gadarnhaol rhwng rhieni, gofalwyr a'r staff yn elfen allweddol ar gyfer codi safonau.

9 Blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer eleni yw:

- codi safonau cyrhaeddiad mewn llafaredd a darllen ar draws yr ysgol;
- codi safonau mewn agweddau o'r holl bynciau ar draws y cwricwlwm yn y ddau gyfnod allweddol a'r Uned Arbennig;
- ail-ysgrifennu'r cynlluniau gwaith ar gyfer technoleg gwybodaeth, dylunio a thechnoleg, celf ac addysg gorfforol;
- paratoi ar gyfer asesu statudol o'r Gymraeg fel ail iaith yn CA2;
- datblygu ardal allanol y Cyfnod Sylfaen a datblygu dosbarthiadau B1 ymhellach i gefnogi strategaethau'r Cyfnod Sylfaen;
- datblygu buarth ac ardal gardd synhwyraidd yr Uned Arbennig;
- cynnal arolwg o holl randdeiliaid yr ysgol er mwyn bwydo'r hunan arfarnu'n well; a
- gweithio tuag at Farc Ansawdd ysgol dyslecsia gyfeillgar, statws achrediad Asiantaeth Cyfathrebu a Thechnoleg Addysgol Prydain (BECTA), baner werdd Eco-Sgolion a thrydedd ddeilen gwobr Ysgolion Iach.

## Crynodeb

10 Mae Ysgol Bro Banw yn ysgol dda gyda nodweddion rhagorol. Mae'r rhain yn cynnwys addysgu o ansawdd rhagorol, cwricwlwm sydd yn darparu amrediad eang o brofiadau dysgu i'r holl ddisgyblion a gofal, cyfarwyddyd a chefnogaeth ardderchog. Mae'r ddarpariaeth o brofiadau dysgu a'r gefnogaeth yn yr Unedau Arbennig yn yr adrannau babanod ac iau yn ardderchog. Mae arweinwyr a rheolwyr yn cynllunio ac arfarnu'r ddarpariaeth yn hynod o effeithiol. Mae'r pennaeth a'r staff yn cydweithio'n llwyddiannus iawn fel tîm i greu cymuned ysgol sydd yn ffocysu ar ddatblygiad y plentyn cyfan i ddiwallu heriau'r unfed ganrif ar hugain.

11 Mae'r tîm arolygu yn cytuno gydag arfarniad yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu mewn chwech o'r cwestiynau allweddol ond mae wedi dyfarnu gradd yn is i gwestiwn allweddol 1. Roedd y tîm wedi dynodi nodweddion da a dim diffygion pwysig yn y cwestiwn allweddol hwn.

## Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

| Cwestiwn Allweddol | | Gradd arolygu |
|---|---|---|
| 1 | Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? | Gradd 2 |
| 2 | Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu? | Gradd 1 |
| 3 | Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? | Gradd 1 |
| 4 | Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr? | Gradd 1 |
| 5 | Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol? | Gradd 1 |
| 6 | Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? | Gradd 1 |
| 7 | Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? | Gradd 1 |

## Graddau ar gyfer safonau yn y pynciau a arolygwyd

| Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 |
|---|---|---|---|---|
| 15% | 79% | 6% | 0% | 0% |

12 Mae'r ffigurau hyn yn uwch na'r canrannau cenedlaethol yn adroddiad blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi (PAEM) ar gyfer 2008-2009 sydd yn datgan fod safonau mewn ysgolion yng Nghymru yn dda neu well (Gradd 1 a 2) mewn 84% o'r gwersi ac yn rhagorol mewn 12%.

## Graddau yn y meysydd dysgu a arolygwyd

| | Meithrin | Derbyn |
|---|---|---|
| Datblygiad personol a chymdeithasol, lles a datblygiad diwylliannol | Gradd 1 | Gradd 1 |
| Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu | Gradd 2 | Gradd 1 |
| Datblygiad iaith Gymraeg | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Datblygiad mathemategol | Gradd 2 | Gradd 1 |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd | Gradd 2 | Gradd 1 |
| Datblygiad creadigol | Gradd 1 | Gradd 1 |
| Datblygiad corfforol | Gradd 1 | Gradd 1 |
| Cyfnod Sylfaen | Gradd 1 | |

13 Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth ar gyfer plant dan bum mlwydd oed yn briodol i'w hanghenion a gwna'r plant gynnydd da tuag at ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen.

## Graddau a ddyfarnwyd yn y pynciau a arolygwyd

| Maes arolygu | CA1 | CA2 |
|---|---|---|
| Cymraeg iaith gyntaf | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Saesneg | Gradd 2 | Gradd 1 |
| Cymraeg ail iaith | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Mathemateg | Gradd 2 | Gradd 1 |
| Gwyddoniaeth | Gradd 2 | Gradd 1 |
| Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) | Gradd 2 | Gradd 1 |
| Dylunio a thechnoleg | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Hanes | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Daearyddiaeth | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Celf a dylunio | Gradd 1 | Gradd 2 |
| Cerddoriaeth | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Addysg gorfforol | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Addysg grefyddol | Gradd 1 | Gradd 2 |

14 Gwna disgyblion ar draws yr ysgol gynnydd da wrth gaffael medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth newydd. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys y rhai sydd ag AAA, yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda dros amser. Mae disgyblion yn llwyddo beth bynnag eu cefndir ac ar ddiwedd CA2, maent wedi eu paratoi'n dda i symud ymlaen i'r ysgol uwchradd.

15 Yn y ddau gyfnod allweddol, mae disgyblion yn ymwybodol o'u targedau, ac yn gwybod pryd maent wedi eu cyflawni. Ymatebant yn ddeallus i strategaethau sydd yn eu hannog i arfarnu eu dysgu eu hunain yn ystod gwersi.

16 Mae asesiad athrawon o'r pynciau craidd yn CA1 yn 2009 yn dynodi fod canran y disgyblion sydd yn cyflawni lefel 2 (y lefel a ddisgwylir gan ddisgyblion yn saith mlwydd oed), yn uwch na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol mewn Cymraeg iaith gyntaf a Saesneg ac yn y dangosydd pynciau craidd (DPC), ond mewn mathemateg a gwyddoniaeth mae'n is na chyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Mae canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 3 mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol, ond mewn Cymraeg mae'n is na chyfartaleddau lleol a chenedlaethol.

17 Yn CA2 yn 2009, mae canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 4 (y lefel a ddisgwylir gan ddisgyblion yn 11 mlwydd oed) mewn Cymraeg a Saesneg yn uwch na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol, ond mewn mathemateg a gwyddoniaeth mae'n is na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Mae canran y disgyblion sydd yn cyflawni lefel 5 ym mhob un o'r pedwar pwnc craidd yn uwch na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol.

18 Roedd bechgyn yn perfformio'n well na'r merched yn CA1 yn 2009, ond yn CA2, roedd merched yn perfformio'n well na'r bechgyn. Mae'r ysgol yn nodi fod canran uchel o'r bechgyn yn asesiadau CA2 yn 2009 yn ddisgyblion ag AAA.

19 O'i chymharu gydag ysgolion tebyg yn yr un grŵp prydau ysgol am ddim, mae canrannau'r ysgol yn CA1 yn y drydydd chwartel mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, ond yn y chwartel cyntaf mewn Cymraeg a'r ail chwartel yn y DPC. Yn CA2, maent yn yr ail chwartel mewn Cymraeg a Saesneg ac yn y drydydd chwartel mewn mathemateg, gwyddoniaeth a'r DPC. Mewn cymhariaeth ag ysgolion yn yr un teulu, mae canrannau'r ysgol yn uwch ym mhob un o'r pedwar pwnc craidd ac yn y DPC yn y ddau gyfnod allweddol.

20 Yn gyffredinol, mae safonau'r medrau cyfathrebu yn dda ac mae medrau gwrando yn rhagorol. Mae gan blant dan bum mlwydd oed fedrau cyfathrebu sydd yn gyson dda. Mae medrau siarad a darllen yn dda ar draws y ddau gyfnod allweddol mewn Cymraeg ail iaith a Saesneg yn y ffrwd Saesneg, ac yn y Gymraeg yn CA1 ac yn y ddwy iaith yn CA2 yn y ffrwd Gymraeg. Mae medrau ysgrifennu Saesneg yn CA2 yn ardderchog.

21 Mae medrau rhifedd y plant dan bump oed a'r disgyblion yn CA1 a CA2 yn dda a chânt amrediad o gyfleoedd i'w defnyddio ar draws y cwricwlwm. Mae medrau TGCh yn dda yn y Cyfnod Sylfaen ac yn CA1 ond yn CA2 maent yn rhagorol. Mae medrau dwyieithog disgyblion yn dda ar draws yr ysgol, yn enwedig yn CA1. Mae'r disgyblion sydd yn y ffrwd Saesneg yn caffael lefel dda o Gymraeg achlysurol ac er bod y mwyafrif o ddisgyblion yn y ffrwd Gymraeg yn dod o gartrefi di-Gymraeg, maent yn dysgu Cymraeg yn gyflym ac yn datblygu rhuglder da yn y ddwy iaith.

22 Gwna'r disgyblion gynnydd rhagorol yn eu datblygiad personol, cymdeithasol a moesol ac yn eu datblygiad ehangach. Dengys y plant dan bump a'r disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol gymhelliant da wrth ymroi i'w gwaith ac mae eu gallu i weithio'n annibynnol yn datblygu'n dda. Maent yn ymddwyn yn gyfrifol a chwrtais o amgylch yr ysgol, ac yn arddangos parch tuag at ei gilydd a thag at oedolion. Mae disgyblion o'r brif ffrwd ac o'r dosbarthiadau arbennig yn rhannu profiadau dysgu mewn modd gaiff ei nodweddu gan garedigrwydd a sensitifrwydd. Maent yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd cyfleoedd cyfartal.

23 Datblyga'r plant dan bump ddealltwriaeth dda iawn o fyd gwaith a'r gymuned trwy chwarae rôl. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae dealltwriaeth ardderchog disgyblion o fyd gwaith yn ganlyniad i gysylltiadau cryf gyda busnesau lleol a chymryd rhan weithredol mewn prosiectau menter. Cyfranna disgyblion yn dda i amrediad eang o weithgareddau cymunedol ac elwant eu hunain oddi wrthynt.

24 Dros y tri thymor blaenorol, roedd cyfartaledd presenoldeb disgyblion yn y brif ffrwd, y dosbarthiadau arbennig, yn CA1 ac yn yr Uned Arbennig yn 91.4% sydd yn is na chyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Mae bron yr holl ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

**Ansawdd yr addysgu**

**Graddau ar gyfer addysgu**

| Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 |
|---|---|---|---|---|
| 28% | 67% | 5% | 0% | 0% |

25 Mae'r ffigurau hyn yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol yn adroddiad blynyddol PAEM ar gyfer 2008-2009, lle yn gyffredinol, mae ansawdd yr addysgu mewn ysgolion cynradd yng Nghymru yn dda neu well (Gradd 1 a 2) mewn 85% o wersi ac yn rhagorol (Gradd 1) mewn 17%. Mae ansawdd yr addysgu yn gryfder yn yr ysgol.

26 Mae ansawdd y perthynas gwaith rhwng yr athrawon a'r dysgwyr o safon uchel. Mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel, a chaiff ymdrechion disgyblion eu canmol yn gyson. Maent yn hyrwyddo medrau dwyieithog disgyblion yn dda, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen a CA1. Rhoddir cryn bwyslais ar gydraddoldeb cyfle i ddysgwyr a gwneir defnydd effeithiol iawn o amrediad o adnoddau a dulliau addysgu. Defnyddia'r athrawon y cymorthyddion dysgu yn dda iawn i gefnogi grwpiau neu unigolion. Mae eu cynllunio yn dynodi amcanion dysgu eglur a chydweddiad effeithiol y tasgau i ddiwallu anghenion disgyblion gyda galluoedd gwahanol, gan gynnwys y rhai sydd ag AAA. Mae'r rhan fwyaf o wersi yn datblygu ar gyflymder da.

27 Lle mae'r addysgu'n rhagorol, mae gan athrawon wybodaeth pynciol trylwyr ac maent yn defnyddio amrediad eang o fedrau, strategaethau ac adnoddau i gynnal diddordeb y disgyblion. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ac yn trefnu gwersi'n dda iawn. Mae gwersi'n datblygu ar gyflymder ardderchog ac mae ymyrraeth athrawon wedi ei amseru'n dda ac yn effeithiol iawn. Mae ansawdd y cwestiynu yn ystod y sesiynau cyflwyno a chloi yn rhagorol. Caiff gwaith y cymorthyddion dysgu ei drefnu'n effeithiol iawn.

28 Yn yr ychydig o wersi lle barnwyd fod diffygion yn yr addysgu, roedd cyflwyniadau'n rhy hir, y strategaethau ar gyfer cynnal diddordeb a chyfranogiad gweithredol disgyblion yn llai effeithiol, ac nid oedd y rheolaeth o drefniadaeth a chyflymder y wers cystal.

29 Mae gweithdrefnau asesu'r ysgol yn dda gyda rhai nodweddion rhagorol ac maent yn diwallu'r gofynion statudol o ran cofnodi cyflawniadau disgyblion ac adrodd yn flynyddol i'r rhieni. Caiff cynnydd disgyblion yn yr holl bynciau ei dracio'n effeithiol iawn, a chaiff gwaith ei farcio'n rheolaidd. Gwneir defnydd da iawn o asesiadau gwaelodlin a phynciau craidd i ddynodi anghenion disgyblion, i osod targedau ac i gynllunio gweithgareddau. Mae cyfleoedd asesu a ddynodir yn y cynllunio tymor byr a'r cwestiynu yn ystod gwersi yn darparu gwybodaeth am gynnydd disgyblion a chaiff ei ddefnyddio'n briodol. Mae strategaethau effeithiol mewn lle ar gyfer asesu ar gyfer dysgu, ac mae disgyblion yn datblygu rôl fwy gweithredol wrth osod targedau eu hunain ac arfarnu eu cynnydd.

30 Darpara'r ysgol gwricwlwm eang a chytbwys sydd yn diwallu anghenion yr holl ddisgyblion yn effeithiol iawn, gan gynnwys y rhai sydd ag AAA a'r rhai mwy galluog a thalentog. Mae'n diwallu'r gofynion statudol ar draws yr holl ystod oedran.

31 Mae cynllunio ysgol-gyfan yn darparu'n dda ar gyfer y datblygiad o'r medrau allweddol o lythrennedd, rhifedd a TGCh ym mhob pwnc.

32 Darperir cyfleoedd rheolaidd i ddatblygu medrau meddwl a datrys problemau'r disgyblion, a chaiff y medrau creadigol eu hyrwyddo'n llwyddiannus iawn ar draws y cwricwlwm. Mae'r Cwricwlwm Cymreig yn nodwedd amlwg mewn llawer o feysydd o'r ddarpariaeth. Mae hyrwyddiad yr ysgol o fedrau dwyieithog yn dda, ac mae cyfleoedd ar gyfer y defnydd o'r Gymraeg yn ystod trefniadaeth yr ysgol yn datblygu'n dda, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen a CA1. Mae gwersi addysg grefyddol, daearyddiaeth a chelf yn codi ymwybyddiaeth disgyblion o ddiwylliannau eraill mewn modd hynod o effeithiol.

33 Caiff disgyblion gyfleoedd cyfartal i gyfranogi mewn amrediad eang o weithgareddau allgyrsiol. Caiff eu profiad addysgol ei gyfoethogi gan ymweliadau i addoldai, busnesau a safleoedd treftadaeth, a thrwy gyfraniadau amrywiaeth o ymwelwyr i'r ysgol.

34 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda gyda nodweddion rhagorol. Mae gwersi addysg grefyddol a'r addoli ar y cyd dyddiol yn darparu'n arbennig o dda ar gyfer datblygiad ysbrydol y disgyblion ac yn diwallu gofynion statudol. Caiff y rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) ei drefnu'n hynod o effeithiol i gynnwys gwersi ar wahân ac agweddau sydd yn treiddio'r holl gwricwlwm. Mae aelodaeth o'r cyngor ysgol a'r cyngor Eco yn rhoi cyfleoedd ardderchog i ddisgyblion gynrychioli safbwyntiau eu cyfoedion.

35 Mae'r ysgol wedi hyrwyddo addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy yn dda iawn ac mae'n rhan o'r fenter Eco-Sgolion. Mae dealltwriaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang ei hybu gan ymwybyddiaeth o bwysigrwydd Masnach Deg a thrwy noddi dau blentyn amddifad yn Affrica. Mae'r ysgol eisoes wedi ennill pum deilen yn y rhaglen Ysgolion Iach ac ar hyn o bryd mae’n gweithio tuag at wobr platinwm y rhaglen Eco-Sgolion.

36 Mae partneriaethau'r ysgol yn rhagorol. Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gyda'r rhieni er lles eu plant a gwna'r rhieni gyfraniad da iawn i'r ysgol. Mae partneriaethau gyda rhieni disgyblion yn yr Uned Iaith, yr Unedau Asesu a'r Uned Arbennig yn rhagorol.

37 Mae cysylltiadau cadarn gydag ysgolion cynradd eraill yn y clwstwr yn sicrhau cydweithredu clos. Mae trefniadau ar gyfer trosglwyddo disgyblion i'r ysgol

uwchradd yn rhagorol ac mae'r cysylltiadau gyda cholegau hyfforddiant i athrawon a cholegau addysg bellach hefyd yn dda iawn.

38 Mae gan ddiwydiant a busnesau lleol gysylltiadau hir-sefydlog gyda'r ysgol ac mae medrau menter disgyblion yn datblygu'n dda iawn trwy werthu ffrwythau yn y siop byrbryd iachus ac wrth wneud amrediad o nwyddau i'w gwerthu yn ffeiriau'r ysgol.

39 Caiff trefniadau gofal a chyfarwyddyd yr ysgol eu cynllunio a'u rheoli'n effeithiol iawn. Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol, lle teimla'r disgyblion yn ddiogel a hapus. Gwneir defnydd hynod o effeithiol o'r gwasanaethau a'r asiantaethau lles er mwyn cefnogi'r holl ddisgyblion, yn enwedig y rhai sydd ag AAA.

40 Mae'r monitro a'r dadansoddi o bresenoldeb a phrydlondeb yn drylwyr a chyson ac mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer monitro cynnydd disgyblion yn fanwl. Lle mae pryderon am bresenoldeb neu ymddygiad disgybl, gweithredir yn syth.

41 Sicrha'r ysgol lles ei holl ddisgyblion. Mae ei ethos cynhaliol yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at ddatblygiad hunan-barch disgyblion. Mae trefniadau amddiffyn plant yn gadarn ac yn diwallu'r gofynion statudol.

42 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag AAA o ansawdd uchel a chaiff ei rheoli'n effeithiol. Dynodir anghenion disgyblion yn gynnar, a gwnânt gynnydd da. Mae ystod o fentrau llwyddiannus megis y prosiect 'Early Bird' sef cynllun chwarae ar gyfer disgyblion sydd ag anawsterau cymhleth, a'r rhaglen Cryfhau Teuluoedd wedi eu lleoli yn yr ysgol a chânt eu rheoli gan y staff. Maent yn darparu hyfforddiant a chefnogaeth i rieni. Mae staff addysgu a chynnal o fewn yr Uned Arbennig a'r dosbarthiadau arbennig yn darparu amgylchedd a phrofiadau dysgu sydd yn rhagorol ac yn cydweddu'n dda iawn gydag anghenion unigol y disgyblion. Mae cefnogaeth i ddisgyblion sydd ag anawsterau llythrennedd yn y brif ffrwd o ansawdd dda iawn.

43 Gwneir darpariaeth ardderchog ar gyfer y datblygiad o ddisgyblion mwy dawnus a thalentog trwy weithdrefnau ffrydio'r ysgol a thrwy'r prosiect Awyr Las.

44 Mae gan yr ysgol weithdrefnau iechyd a diogelwch effeithiol. Anogir disgyblion i gadw'n iach trwy hyrwyddo gweithgareddau corfforol, gweithgareddau chwaraeon allgyrsiol a bwyta'n iach.

45 Sicrha'r ysgol nad yw disgyblion sydd ag anableddau corfforol yn cael eu rhoi o dan unrhyw anfantais, a chânt eu hintegreiddio'n dda iawn i fywyd yr ysgol. Mae Cynllun Cydraddoldeb a Hygyrchedd i Bobl Anabl mewn lle.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

46 Yn yr amser byr ers sefydlu Ysgol Bro Banw, mae'r pennaeth a'r tîm arweinyddol wedi gwneud cynnydd arbennig wrth greu cymuned ysgol gydlynol sydd â gweledigaeth gyfrannol ac ymdeimlad eglur o gyfeiriad. Mae staff a llywodraethwyr yn rhannu ymroddiad cryf i ddatblygu'r plentyn cyfan ac i'w baratoi i ddiwallu heriau'r unfed ganrif ar hugain. Rheolir y drefniadaeth ddyddiol yn effeithlon iawn er mwyn sicrhau cyfranogiad llawn yr holl staff a disgyblion yn holl weithgareddau'r ysgol.

47 Caiff disgwyliadau uchel y pennaeth o'i hunan, y staff a'r disgyblion eu rhannu gan holl aelodau cymuned yr ysgol, a chaiff ei chefnogi'n dda gan y dirprwy bennaeth a'r arweinwyr cwricwlaidd. Cydweithia'r staff yn dda iawn fel tîm. Mae'r cylchredau blynyddol o fonitro safonau a darpariaeth, hunan arfarnu a'r

cynllunio gwella ysgol wedi eu cysylltu'n agos ac yn drylwyr. Mae ystyriaeth yr ysgol o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn rhagorol.

48 Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn o waith a bywyd yr ysgol. Caiff aelodau eu hysbysu'n dda iawn a chymrant rôl ragweithiol wrth weithio gyda'r pennaeth i reoli gwariant y gyllideb ac adeiladau'r ysgol ac i bennu cyfeiriad strategol yr ysgol trwy flaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol (CDY). Mae eu rôl wrth fonitro'r ddarpariaeth addysgol yn gadarn ac effeithiol. Maent yn diwallu'r gofynion rheoleiddiol a chyfreithiol yn llawn.

49 Mae'r broses hunan arfarnu wedi ei sefydlu'n gadarn yn niwylliant yr ysgol ac mae'r adroddiad hunan arfarnu yn ddogfen ddefnyddiol sydd yn darparu ystod o wybodaeth berthnasol. Mae arfarniadau yn seiliedig ar fonitro gweithdrefnau sydd yn gyson a thrylwyr. Rhoddir sylw manwl i gyfraniad ystod o randdeiliaid gan gynnwys staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr.

50 Ceir cyswllt eglur rhwng y broses hunan arfarnu, rheoli perfformiad, datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) a chynllunio datblygiad yr ysgol.

51 Mae'r ysgol wedi ei staffio'n dda iawn gan staff profiadol sydd â'r cymwysterau addas, a chynorthwywyr addysgu sydd yn cefnogi'r dysgu a'r addysgu yn dda iawn. Mae ganddynt oll rolau eglur a chânt eu defnyddio'n dda fel tîm effeithiol.

52 Ar y cyfan, mae ystod ardderchog o adnoddau dysgu i gefnogi'r cwricwlwm. Cânt eu trefnu'n dda ac yn effeithiol iawn a gwneir defnydd effeithlon ohonynt. Mae archwiliadau rheolaidd yn sicrhau eu bod yn addas ac yn ddigonol. Caiff cyllideb yr ysgol ei rheoli'n effeithiol gan y pennaeth, y swyddog gweinyddol a'r llywodraethwyr.

53 Yn gyffredinol, mae'r adeiladau mewn cyflwr da ac yn darparu digon o ofod dysgu. Mae'r ddau safle ar wahân yn gwneud rhediad esmwyth yr ysgol yn her feunyddiol ond caiff hwn ei oresgyn trwy reolaeth effeithlon ac effeithiol.

54 O ystyried cyfraniad yr addysgu rhagorol, cyfoeth y ddarpariaeth gwricwlaidd, ansawdd y gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i'r holl ddisgyblion a ffocws yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth ar godi safonau, mae'r ysgol yn darparu gwerth da iawn am arian.

## Argymhellion

55 Er mwyn parhau gyda'r cynnydd mae'r ysgol wedi ei wneud, mae angen i'r corff llywodraethol a'r staff:

**A1** godi'r safonau da a chynnal y safonau rhagorol yn y pynciau a arolygwyd;

**A2** parhau i rannu'r arfer addysgu rhagorol sydd yn bodoli yn yr ysgol;

**A3** parhau i ddatblygu'r cynllunio hir a byr dymor ar gyfer cwricwlwm newydd CA2 ac ymestyn y ddarpariaeth yn y Cyfnod Sylfaen i B1 a B2; a

**A4** chodi safonau presenoldeb.

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am ddiwygio'i gynllun datblygu cyfredol i ymgorffori camau i ymateb i'r argymhellion ymhen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, gan ddangos yr hyn y mae'r ysgol am ei wneud ynglŷn â'r argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodeb ohono, yn cael ei ddosbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

## Safonau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

### Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

56 Nid yw canfyddiadau'r tîm arolygu yn cytuno gyda'r arfarniad a rhoddwyd gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu. Mae arolygwyr o'r farn fod nodweddion da a dim diffygion pwysig yn y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion a dylid dyfarnu Gradd 2 i'r cwestiwn allweddol hwn.

**Graddau ar gyfer safonau yn y gwersi a arsylwyd yn ystod yr arolygiad**

| Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 |
|---|---|---|---|---|
| 15% | 79% | 6% | 0% | 0% |

57 Mae'r ffigurau hyn yn uwch na'r canrannau cenedlaethol yn adroddiad blynyddol PAEM ar gyfer 2008-2009 sydd yn datgan fod safonau mewn ysgolion yng Nghymru yn dda neu well (Gradd 1 a 2) mewn 84% o'r gwersi ac yn rhagorol mewn 12%.

**Graddau yn y meysydd dysgu a arolygwyd**

| | Meithrin | Derbyn |
|---|---|---|
| Datblygiad personol a chymdeithasol, lles a datblygiad diwylliannol | Gradd 1 | Gradd 1 |
| Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu | Gradd 2 | Gradd 1 |
| Datblygiad iaith Gymraeg | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Datblygiad mathemategol | Gradd 2 | Gradd 1 |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd | Gradd 2 | Gradd 1 |
| Datblygiad creadigol | Gradd 1 | Gradd 1 |
| Datblygiad corfforol | Gradd 1 | Gradd 1 |
| Cyfnod Sylfaen | Gradd 1 | |

58 Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth ar gyfer plant dan bum mlwydd oed yn briodol i'w hanghenion a gwna'r plant gynnydd da tuag at ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen.

**Graddau a ddyfarnwyd yn y pynciau a arolygwyd**

| Maes arolygu | CA1 | CA2 |
|---|---|---|
| Cymraeg iaith gyntaf | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Saesneg | Gradd 2 | Gradd 1 |
| Cymraeg ail iaith | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Mathemateg | Gradd 2 | Gradd 1 |
| Gwyddoniaeth | Gradd 2 | Gradd 1 |
| Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) | Gradd 2 | Gradd 1 |
| Dylunio a thechnoleg | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Hanes | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Daearyddiaeth | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Celf a dylunio | Gradd 1 | Gradd 2 |
| Cerddoriaeth | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Addysg gorfforol | Gradd 2 | Gradd 2 |
| Addysg grefyddol | Gradd 1 | Gradd 2 |

59 Gwna disgyblion ar draws yr ysgol gynnydd da wrth gaffael medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth newydd. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys y rhai sydd ag AAA, yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda

dros amser. Mae disgyblion yn llwyddo beth bynnag yw eu cefndir ac ar ddiwedd CA2, maent wedi eu paratoi'n dda i symud ymlaen i'r ysgol uwchradd.

60 Yn y ddau gyfnod allweddol, mae disgyblion yn ymwybodol o'u targedau, ac yn gwybod pryd maent wedi eu cyflawni. Ymatebant yn ddeallus i strategaethau sydd yn eu hannog i arfarnu dysgu eu hunain yn ystod gwersi.

61 Mae safonau'r medrau cyfathrebu yn dda ac mewn gwrando maent yn rhagorol. Mae gan blant dan bum mlwydd oed fedrau cyfathrebu da sydd yn annog eu cynnydd wrth ddysgu. Mae disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn gwrando'n dda iawn ar gyflwyniadau athrawon, ac ymatebant yn dda i gwestiynau a chyfleoedd i drafod eu gwaith mewn parau a grwpiau bychan. Er bod y pwyslais yn y ffrwd Saesneg ar y Saesneg ac yn y ffrwd Gymraeg ar y Gymraeg a'r Saesneg, mae disgyblion yn y ddwy ffrwd yn darllen amrywiaeth o destunau yn y ddwy iaith yn gymwys a gyda dealltwriaeth, yn unol â'u hoed a'u gallu. Mae medrau ysgrifennu disgyblion CA1 yn dda mewn Cymraeg a Saesneg, ac yn CA2 mae medrau ysgrifennu mewn Saesneg yn rhagorol.

62 Yn y Cyfnod Sylfaen ac yn y ddau gyfnod allweddol, mae medrau rhifedd yn gyson dda a chânt eu defnyddio mewn ystod o bynciau ar draws y cwricwlwm. Mae medrau TGCh yn dda yn y Cyfnod Sylfaen ac yn CA1 ond yn CA2 maent yn rhagorol. Mae'r plant dan bump yn tynnu lluniau, yn chwarae gemau iaith a rhifedd ac yn rheoli'r Bee-bot. Defnyddia disgyblion CA1 gyfrifiaduron yn yr ystafell gyfrifiaduron ac yn y dosbarth i gyflwyno gwaith mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys prosesu geiriau, graffiau, tablau a lluniau, ac i ddefnyddio rhaglenni hunan gywiro mewn mathemateg ac iaith. Defnyddiant gamerâu digidol yn gymwys ac maent yn defnyddio'r rhyngrwyd i ganfod gwybodaeth berthnasol. Mae disgyblion CA2 yn creu tudalennau gwe eu hunain a gwnânt ddefnydd llwyddiannus o becyn animeiddio a thaenlenni.

63 Mae medrau dwyieithog disgyblion yn dda. Mae'r disgyblion sydd yn y ffrwd Saesneg yn caffael lefel dda o Gymraeg achlysurol yn eu profiadau dysgu. Er bod y mwyafrif o'r disgyblion yn y ffrwd Gymraeg yn dod o gartrefi di-Gymraeg, maent yn dysgu Cymraeg yn gyflym ac yn datblygu rhuglder da yn y ddwy iaith.

64 Mae asesiad athrawon o'r pynciau craidd yn CA1 yn 2009 yn dynodi fod canran y disgyblion sydd yn cyflawni lefel 2 (y lefel a ddisgwylir gan ddisgyblion yn saith mlwydd oed), yn uwch na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol mewn Cymraeg iaith gyntaf a Saesneg ac yn y DPC, ond mewn mathemateg a gwyddoniaeth mae'n is na chyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Mae canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 3 mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol, ond mewn Cymraeg mae'n is na chyfartaleddau lleol a chenedlaethol.

65 Yn CA2 yn 2009, mae canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 4 (y lefel a ddisgwylir gan ddisgyblion yn 11 mlwydd oed) mewn Cymraeg a Saesneg yn uwch na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol, ond mewn mathemateg a gwyddoniaeth mae'n is na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Mae canran y disgyblion sydd yn cyflawni lefel 5 ym mhob un o'r pedwar pwnc craidd yn uwch na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol.

66 Roedd bechgyn yn perfformio'n well na'r merched yn CA1 yn 2009, ond yn CA2, roedd merched yn perfformio'n well na'r bechgyn. Mae'r ysgol yn nodi fod canran uchel o'r bechgyn yn asesiadau CA2 yn 2009 yn ddisgyblion ag AAA.

67 O gymharu gydag ysgolion tebyg yn yr un grŵp prydau ysgol am ddim, mae canrannau'r ysgol yn CA1 yn y drydydd chwartel mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, ond yn y chwartel cyntaf mewn Cymraeg a'r ail chwartel yn y DPC. Yn CA2, maent yn yr ail chwartel mewn Cymraeg a Saesneg ac yn y drydydd chwartel mewn mathemateg, gwyddoniaeth a'r DPC. Mewn cymhariaeth ag ysgolion yn yr un teulu, mae canrannau'r ysgol yn uwch ym mhob un o'r pedwar pwnc craidd ac yn y DPC yn y ddau gyfnod allweddol.

68 Caiff y plant dan bump eu cymell yn dda i weithio'n frwdfrydig ar y gweithgareddau diddorol a drefnir ar eu cyfer. Yn y ddau gyfnod allweddol, dengys y disgyblion ddiddordeb yn eu gwaith ac mae eu gallu i ganolbwyntio mewn gwersi yn dda. Maent yn awyddus i ymuno yn y gweithgareddau a baratoir ar eu cyfer sydd yn cynnwys cyfleoedd ar gyfer gwaith unigol, pâr neu grŵp.

69 Mae medrau personol, cymdeithasol a moesol disgyblion yn rhagorol. Maent yn datblygu eu gwerthoedd personol yn llwyddiannus, a dangosant barch tuag at a dealltwriaeth o werthoedd pobl eraill. Mae eu hymddygiad o amgylch yr ysgol yn gyfrifol ac maent yn gwrtais i'r holl oedolion, gan gynnwys ymwelwyr, ac i'w gilydd. Mae disgyblion o'r brif ffrwd ac o'r dosbarthiadau arbennig yn rhannu profiadau dysgu mewn modd gaiff ei nodweddu gan garedigrwydd a sensitifrwydd. Mae hwn yn nodwedd ragorol ac yn un o gryfderau'r ysgol.

70 Mae ymwybyddiaeth disgyblion o gyfleoedd cyfartal yn dda. Maent yn cymryd rhan weithredol ym mywyd yr ysgol, trwy'r cyngor ysgol a'r cyngor eco, 'bydis' y buarth ac mewn amrediad eang o weithgareddau allgyrsiol. Mae disgyblion yn hapus i gymryd cyfrifoldeb am eraill ac am yr amgylchedd.

71 Mae'r dysgwyr yn paratoi'n dda iawn ar gyfer cymryd rhan ym myd gwaith ac yn y gymuned. Mae'r plant dan bump yn cymryd rhan weithredol wrth chwarae rôl a dysgu am y rhai yn y gymuned sydd yn helpu eraill. Mae disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn ymweld â busnesau lleol. Mae disgyblion y brif ffrwd yn elwa'n dda oddi wrth brofiadau Her Fformiwla 1, ac mae'r rhai yn yr Uned Arbennig yn dysgu medrau bywyd defnyddiol yn yr Her Mathemateg. Mae'r holl ddisgyblion yn cymryd rhan yn y nifer o weithgareddau sydd yn cysylltu'r ysgol gyda'i chymuned, gan gynnwys cyngherddau, canu mewn cartrefi hen bobl, ac aelodau o'r gymuned yn ymweld â'r ysgol.

72 Mae gallu'r plant dan bump a disgyblion CA1 i weithio'n annibynnol yn rhagorol, trwy gyfleoedd i wneud dewisiadau, gymryd cyfrifoldeb am amrediad o dasgau dosbarth ac wrth gwblhau gweithgareddau hunan cynhaliol. Mae gallu disgyblion CA2 i weithio'n annibynnol yn datblygu'n dda, yn unigol ac mewn gwaith grŵp. Ar draws yr ysgol, mae medrau datrys problemau'r disgyblion yn dda ac mae eu medrau creadigol yn ardderchog ar draws ystod eang o feysydd dysgu a phynciau.

73 Dros y tri thymor blaenorol, roedd cyfartaledd presenoldeb disgyblion yn 91.4% sydd yn is na chyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Gwneir rhieni'n ymwybodol o'u cyfrifoldeb mewn perthynas â phresenoldeb a phrydlondeb ac mae bron yr holl ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

## Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

### Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

**Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

74 Yn gyffredinol, mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cefnogi'r arfarniad a wnaed gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

75 Yn y gwersi a arsylwyd yn ystod yr arolygiad, barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

| Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 |
|---|---|---|---|---|
| 28% | 67% | 5% | 0% | 0% |

76 Mae ansawdd yr addysgu yn gryfder yn yr ysgol ac yn ffactor allweddol yn y cynnydd a wna disgyblion o bob gallu a'r safonau a gyflawnant. Mae'r ffigurau ar gyfer addysgu da neu well (Graddau 1 a 2) yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol mwyaf diweddar a nodir yn adroddiad blynyddol PAEM ar gyfer 2008-2009. Yn genedlaethol, mae ansawdd yr addysgu yn dda neu well mewn 85% o wersi gyda nodweddion rhagorol mewn 17%.

77 Mae'r athrawon yn fodelau rôl o ansawdd uchel. Ar draws yr ysgol, ceir perthnasau gwaith da iawn rhwng yr athrawon, y staff cynnal a'r disgyblion sydd yn hyrwyddo'r dysgu'n effeithiol. Mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel ac maent yn canmol ymdrech ac ymagwedd tuag at waith dosbarth yn gyson.

78 Yn gyffredinol, mae gan athrawon wybodaeth bynciol trylwyr ac maent yn gyfarwydd gyda'r datblygiadau diweddaraf ym myd addysg cynradd.

79 Rhydd yr athrawon gryn bwyslais ar sicrhau cydraddoldeb cyfle i'r dysgwyr. Maent yn frwdfrydig, yn darparu amgylcheddau dosbarth ysgogol ac yn defnyddio amrediad da o ddulliau a strategaethau addysgu. Gwneir defnydd da ac yn aml da iawn o'r cymhorthion a'r adnoddau dysgu, gan gynnwys y byrddau gwyn rhyngweithiol. Gwneir defnydd da iawn hefyd o gymorthyddion dosbarth sydd yn cefnogi'r dysgu'n effeithiol iawn wrth weithio gyda grwpiau bychan neu gefnogi unigolion a pharau o ddisgyblion sydd ag AAA.

80 Mae'r ymagweddau tuag at yr iaith Gymraeg yn gadarnhaol iawn ac mae strategaethau sydd â ffocws da mewn lle i hyrwyddo medrau dwyieithog ar draws yr ysgol. Caiff y rhain eu gweithredu'n arbennig o dda mewn dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg a chyda phlant a disgyblion ieuengach.

81 Caiff gwersi eu cynllunio'n dda, gyda'r her addas ac maent yn llwyddo cynnal diddordeb y disgyblion. Mae ganddynt nodau dysgu eglur sydd, ynghyd â'r medrau allweddol dan ffocws, ar y cyfan yn cael eu rhannu'n effeithiol gyda'r disgyblion er mwyn iddynt ddeall yn eglur yr hyn a ddisgwylir ganddynt. Yn ystod y sesiwn cloi, ailymwelir â'r nodau dysgu a'r medrau allweddol yn effeithiol. Mae strwythur a threfniadaeth gwersi'n dda ac mae'r rhan fwyaf yn symud ar gyflymder da. Mae medrau cwestiynu effeithiol yn nodwedd o'r rhan fwyaf o wersi. Mae cynllunio'r athrawon o dasgau gwahaniaethol ar gyfer gwahanol allu ac oed yn hynod o effeithiol.

82 Mae nodweddion yr addysgu rhagorol yn cynnwys:

- medrau a strategaethau effeithiol i ennyn a chynnal diddordeb y disgyblion;
- gwybodaeth pynciol trylwyr a defnydd o adnoddau;
- disgwyliadau uchel o ran cyflawniad disgyblion;

- rheolaeth a threfniadaeth dda iawn o wersi;
- defnydd ystyrlon iawn o'r cymorthyddion dysgu;
- gwersi'n datblygu ar gyflymder bywiog iawn;
- defnydd medrus iawn o gwestiynu;
- pan fydd disgyblion yn gweithio wrth eu tasgau mae ymyrraeth athrawon wedi ei amseru'n dda ac yn briodol; a
- sesiynau cloi o safon uchel.

83 Yn y gwersi lle barnwyd fod diffygion yn yr addysgu, roedd y rhain yn cynnwys:

- cyflwyniadau'n rhy hir;
- cyfranogiad annigonol gan y disgyblion;
- strategaethau llai effeithiol ar gyfer cynnal sylw'r dysgwyr;
- lefelau llai effeithiol o ran rheolaeth a threfniadaeth y wers, a
- gwersi'n datblygu ar gyflymder llai effeithiol.

84 Mae gweithdrefnau asesu, cofnodi ac adrodd yn dda gyda rhai nodweddion rhagorol. Mae dogfen bolisi ddiwygiedig mewn lle sydd yn cynnig canllawiau eglur.

85 Caiff y data a gesglir o asesiadau gwaelodlin y plant dan bump eu dadansoddi'n drylwyr a'u ddefnyddio'n effeithiol iawn i ddynodi anghenion ac i fwydo cynlluniau athrawon ar gyfer profiadau dysgu. Cynhelir arsylwadau rheolaidd gan yr athrawon a'r staff cynnal. Caiff plant eu hasesu o fewn gweithgareddau penodol a chedwir nodiadau maes ym mhob un o'r saith maes dysgu i oleuo cynllunio a grwpio yn y dyfodol.

86 Yn CA1 a CA2, gwneir defnydd effeithiol o brofion safonol ynghyd â phrofion y Cwricwlwm Cenedlaethol yn y pynciau craidd i ddynodi cryfderau a'r meysydd ar gyfer datblygiad, ac i osod targedau ar gyfer disgyblion unigol a grwpiau blwyddyn. Mae'r gweithdrefnau asesu yn y pynciau sylfaen ac addysg grefyddol yn fwy anffurfiol.  Gwneir defnydd da o lyfrau disgyblion i ddarparu tystiolaeth o gynnydd yn yr holl bynciau. Mae portffolios o waith wedi ei lefelu'n cael eu datblygu a defnyddir y rhain yn effeithiol i gefnogi asesiadau'r athrawon. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer asesu a chofnodi cynnydd y disgyblion sydd ag AAA yn dda iawn.

87 Mae systemau tracio electronig effeithiol iawn mewn lle ar gyfer yr holl bynciau a chânt eu defnyddio'n arbennig o dda yn y pynciau craidd i ddynodi cynnydd disgyblion a thangyflawniad. Cedwir tystiolaeth fanwl o asesu yn y pynciau craidd mewn ffolderi disgyblion unigol a chânt eu trosglwyddo o ddosbarth i ddosbarth.

88 Caiff gweithgareddau cynllunio tymor byr eu harfarnu'n effeithiol ac mae'r defnydd o arfarnu parhaus i gyfeirio cynllunio ymhellach ar gyfer disgyblion o bob gallu yn drylwyr iawn.

89 Mae'r ffocws ar y fenter addysgu ar gyfer dysgu yn nodwedd amlwg ym mlaenoriaethau cyfredol yr ysgol. Mae gweithdrefnau effeithiol mewn lle ac mae holl agweddau'r fenter hon yn cael eu datblygu ymhellach.

90 Mae cwestiynu effeithiol ac adborth o ansawdd dda yn sicrhau fod disgyblion yn derbyn y wybodaeth berthnasol am eu cyflawniadau mewn gwersi. Mae gallu disgyblion i arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cymheiriaid mewn perthynas â nodau'r wers a'r medrau allweddol yn datblygu'n dda yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau. Mae'r marcio'n gyson ac ar y cyfan mae’n dynodi'r

ffordd ymlaen yn eglur i ddisgyblion. Gosodir targedau personol tymhorol ar gyfer disgyblion unigol mewn iaith, mathemateg a datblygiad cyffredinol ac mae disgyblion yn dechrau cymryd rôl fwy gweithredol wrth osod targedau ac arfarnu eu cynnydd.

91 Mae gan yr ysgol drefniadau cynhwysfawr ar gyfer hysbysu'r rhai sydd â diddordeb dilys am gynnydd a chyflawniadau disgyblion. Caiff y data perthnasol ei drosglwyddo i'r ysgol uwchradd sydd yn derbyn y disgyblion a hysbysir y llywodraethwyr yn dda.

92 Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn cydymffurfio gyda'r gofynion statudol ac, ar y cyfan, maent o ansawdd da iawn. Maent yn cofnodi cyflawniadau'r plant yn eglur iawn ym mhob maes dysgu ar gyfer y plant dan bump  Yn CA1 a CA2, maent yn cofnodi cyflawniadau disgyblion yn yr holl bynciau'n dda ac maent yn arbennig o effeithiol yn y pynciau craidd. Cynhwysir targedau eglur ar gyfer gwelliant. Rhoddir cyfleoedd i rieni i ymateb yn ysgrifenedig i'r adroddiadau ac i drafod eu cynnwys gyda'r athrawon.

93 Mae'r rhieni'n gwerthfawrogi polisi drws agored yr ysgol sydd yn darparu cyfleoedd iddynt ddod i mewn a thrafod cynnydd eu plant. Cynhelir cyfarfodydd mwy ffurfiol yn dymhorol pan gaiff rhieni gyfleoedd i drafod targedau a chynnydd eu plant.

## Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

| **Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol** |
|---|

94 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cytuno gyda'r arfarniad a wnaed gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

95 Mae ymateb yr ysgol i anghenion dysgu'r disgyblion yn rhagorol. Mae'r cwricwlwm yn eang a chytbwys ac yn diwallu anghenion ei holl ddisgyblion. Mae'n agored i bawb yn gyfartal ac yn diwallu'r gofynion statudol yn llawn.  Mae'r ysgol yn darparu'n dda ar gyfer yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac anableddau. Mae'r ysgol wedi diweddaru'r cwricwlwm i gymryd ystyriaeth o'r cwricwlwm diwygiedig ar gyfer CA2 a'r Cyfnod Sylfaen.

96 Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer y plant dan bump yn briodol i'w hanghenion a gwna'r plant gynnydd da tuag at ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen.  Mae plant yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn yn elwa oddi wrth raglen waith cyfoethog gyda gweithgareddau a gynlluniwyd yn dda. Mae darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn gryfder yn yr ysgol.

97 Mae polisïau a chynlluniau gwaith pynciol o ansawdd dda iawn. Caiff y rhain eu dilyn yn gyson ar draws yr ysgol er mwyn sicrhau fod disgyblion yn adeiladu ar hyn maent yn gwybod ac yn gallu gwneud.

98 Mae cynllunio ysgol-gyfan yn sicrhau'n effeithiol y rhoddir y cyfle i'r holl ddisgyblion gaffael y medrau sylfaenol ac allweddol perthnasol ac angenrheidiol, a'u bod yn ymwybodol o'r medrau maent yn eu dysgu. Mae'r rhain yn cynnwys medrau gwrando, personol a chymdeithasol a chreadigol da iawn, gyda'r disgyblion yn cydweithio ar amrediad eang o weithgareddau. Darperir cyfleoedd cwricwlaidd da ar gyfer cyflwyno medrau allweddol TGCh.  Darperir cyfleoedd cyson i ddatblygu medrau meddwl a datrys problemau'r disgyblion. Dyfarnwyd

Marc Ansawdd yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol i'r ysgol. Mae'r ysgol yn diwallu'r holl ofynion statudol yn llwyddiannus, gan gynnwys y rhai ar gyfer addysg gorfforol ac addoli ar y cyd.

99 Caiff y Cwricwlwm Cymreig ei hyrwyddo'n llwyddiannus trwy amrywiaeth o bynciau megis hanes, daearyddiaeth, addysg grefyddol, celf a cherddoriaeth. Darperir cyfleoedd da iawn i ddisgyblion ddysgu am ddiwylliant, amgylchfyd a hanes Cymru. At ei gilydd, mae hyrwyddiad yr ysgol o fedrau dwyieithog disgyblion yn dda. Mae cyfleoedd ar gyfer y defnydd o'r Gymraeg yn ystod trefniadaeth yr ysgol yn datblygu'n dda, ond mae'r rhai a ddarperir ar gyfer disgyblion mewn rhai grwpiau blwyddyn yn CA2 i ddefnyddio'u medrau dwyieithog drwy'r dydd ac ar draws y cwricwlwm yn anghyson.

100 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda gyda nodweddion rhagorol. Caiff datblygiad ysbrydol ei hyrwyddo'n llwyddiannus yn ystod gwasanaeth boreol. Mae addoli ar y cyd yn cymryd lle yn ddyddiol ac yn chwarae rhan bwysig wrth ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o fod yn rhan o gymuned. Anogir disgyblion i fyfyrio ar eu profiadau eu hunain ac i ystyried credoau pobl eraill.

101 Mae datblygiad moesol disgyblion yn dda iawn. Darpara'r ysgol ddealltwriaeth dda i'r disgyblion o'r hyn sydd yn dda a drwg, a chaiff y gwerthoedd hyn eu hatgyfnerthu trwy strategaethau hynod o effeithiol sydd yn hyrwyddo ABCh o fewn y cwricwlwm. Caiff y rhaglen ABCh ei drefnu'n dda iawn i gynnwys gwersi ar wahân ac agweddau sydd yn treiddio'r holl gwricwlwm.

102 Darperir cyfleoedd da i ddisgyblion ddysgu am eu hetifeddiaeth a'u diwylliant Cymreig nhw a'r ardal leol. Mae disgyblion yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol Cymreig, megis Dydd Gŵyl Dewi a'r Eisteddfod. Caiff dealltwriaeth disgyblion o amrywiaeth diwylliannol ei hyrwyddo'n llwyddiannus gan y themâu mewn addysg grefyddol a daearyddiaeth a'r amgylchedd lleol.

103 Derbynia'r disgyblion gyfleoedd cyfartal i gymryd rhan mewn amrediad eang o weithgareddau allgyrsiol o natur chwaraeon, diwylliannol ac academaidd. Mae'r rhain yn cynnwys sgiliau pêl, gemau bwrdd, Clwb Ffrangeg, Clwb Cymraeg ac amrywiaeth eang o chwaraeon. Mae disgyblion CA2 yn elwa'n fawr oddi wrth wersi cerddorol wythnosol mewn canu gan yr athro teithiol. Mae'r rhain yn ymestyn profiadau'r diwrnod ysgol ac yn gwneud cyfraniad effeithiol at ddatblygiad personol a chymdeithasol yr holl ddisgyblion.

104 Caiff profiadau addysgol y disgyblion eu cyfoethogi gan ymweliadau i lefydd o fewn eu hardal megis yr ysgolion uwchradd, eglwysi a busnesau lleol a thrwy ymweliadau preswyl i lefydd megis Pentywyn a Llangrannog. Mae disgyblion hefyd yn elwa oddi wrth amrywiaeth o weithgareddau diwylliannol. Mae ymwelwyr â'r ysgol yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ehangu ac ymestyn eu profiadau dysgu.

105 Mae partneriaethau'r ysgol gyda'r rhieni, y gymuned leol a'r gymuned ehangach gan gynnwys ysgolion eraill yn hynod o lwyddiannus. Mae 'Ffrindiau'r Ysgol' ynghlwm yn weithredol ym mywyd a gwaith yr ysgol a gwnânt gyfraniad gwerthfawr i'r ddarpariaeth. Mae partneriaethau gyda rhieni disgyblion yn yr Uned Iaith, yr Unedau Asesu a'r Uned Arbennig yn rhagorol.

106 Mae gan yr ysgol bartneriaethau da iawn gyda'r gymuned leol a gydag ysgolion cynradd eraill y clwstwr. Mae'r cysylltiadau gyda'r ysgol uwchradd leol yn rhagorol. Mae trefniadau ar gyfer trosglwyddo disgyblion i'r ysgol uwchradd yn gadarn ac yn darparu cyswllt hynod o effeithiol rhwng yr ysgolion. Mae'r cysylltiadau gyda cholegau hyfforddiant i athrawon a cholegau addysg bellach hefyd yn dda iawn.

107 Mae gan ddiwydiant a busnesau lleol gysylltiadau hir-sefydlog gyda'r ysgol ac maent yn aml yn ymweld â'r ysgol er mwyn darparu cyngor a chyfarwyddyd i'r disgyblion. Mae darpariaeth yr ysgol o brofiadau sydd yn galluogi disgyblion gymryd rhan ym myd gwaith yn ardderchog.

108 Mae i'r ysgol ethos holl gynhwysol. Mae'n gryf yn ei hyrwyddo o gydraddoldeb ym mhob peth mae'n ei gynnig. Caiff unrhyw achos o ystrydebu ei herio'n effeithiol. Caiff polisïau ar gyfer hyrwyddo ac ymarfer cydraddoldeb mynediad, cyfle cyfartal a chydraddoldeb hiliol eu gweithredu'n gyson gan yr holl staff.

109 Caiff datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang eu hyrwyddo'n effeithiol iawn ar draws yr ysgol. Caiff dealltwriaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang ei hybu gan eu hymwybyddiaeth o bwysigrwydd Masnach Deg a thrwy noddi dau blentyn amddifad yn Affrica. Mae amryw o enghreifftiau ymarferol o fentrau sydd yn hyrwyddo datblygiad cynaliadwy yn amlwg o fewn ac o amgylch yr ysgol. Mae gweithdrefnau i hyrwyddo addysg am yr amgylchedd, er enghraifft, ailgylchu, rheoli sbwriel, oeryddion dŵr, compostio ac arbed ynni wedi eu hen sefydlu. Mae'r ysgol yn rhan o'r fenter Eco-Sgolion, gyda grŵp eco disgyblion, ac mae’n gweithio tuag at ennill y Faner Werdd fel Ysgol Bro Banw.

110 Mae medrau menter disgyblion yn datblygu'n dda gyda'r disgyblion yn rhan weithredol o godi arian tuag at yr ysgol ac elusennau. Maent yn rheoli siop byrbryd iachus yr ysgol ac yn gwneud amrediad o nwyddau i'w gwerthu yn ffeiriau'r ysgol. Un o'r blaenoriaethau cyfredol yw ennill gwobr platinwm Ysgolion Iach.

111 Rhydd yr ysgol ystyriaeth dda i flaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer dysgu gydol oes ac adfywiad cymunedol. Mae mentrau i ddatblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth disgyblion o Rydaman a'r ardal o amgylch yn effeithiol iawn. Mae hyn yn nodwedd ragorol.

## Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

**Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

112 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cytuno gyda'r arfarniad a wnaed gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

113 Mae'r nodweddion rhagorol yn cynnwys:

- ansawdd uchel y gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i'r holl ddisgyblion ac yn enwedig y rhai yn y dosbarthiadau arbennig;
- yr hyrwyddo llwyddiannus o les disgyblion;
- yr arfer canmoladwy a welir a'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag AAA; ac
- ethos cynhwysol yr ysgol.

114 Darpara'r ysgol amgylchedd ddysgu gofalgar ac ysgogol iawn ar gyfer ei holl ddisgyblion. Dywed disgyblion y teimlant fod yr ysgol yn le cyfeillgar, hapus a diogel, ei fod yn hawdd troi at y staff ac maent yn ymateb i unrhyw bryderon sydd gan y disgyblion.

115 Ceir cefnogaeth dda iawn i ddisgyblion o fewn gwersi. Mae perthnasau da iawn ac ethos cadarnhaol a phriodol yn amlwg yn y dosbarthiadau. Caiff disgyblion sydd ag AAA yn arbennig eu cefnogi'n effeithiol gan gymorthyddion addysgu a hyfforddwyd yn dda.

116 Mae'r cysylltiadau partneriaeth gyda'r rhieni'n gadarn. Maent yn derbyn gwybodaeth dda iawn am weithgareddau'r ysgol, a chânt eu hysbysu'n rheolaidd am gynnydd eu plant. Cânt eu harwain ar sut fedrant gefnogi eu plentyn ymhellach trwy gyfarfodydd a nosweithiau cyflwyno a gynhelir yn yr ysgol.

117 Mae'r cyngor ysgol yn cwrdd yn rheolaidd ac mae'r ysgol wedi ymateb i'w awgrymiadau wrth ddarparu llefydd eistedd y tu allan a chyfarpar chwarae ychwanegol. Mae'r cyngor ysgol hefyd yn weithgar trwy drefnu gweithgareddau codi arian ar gyfer elusennau.

118 Ar gyfer y plant oed ysgol uwchradd yn yr Uned Arbennig, mae'r ysgol yn darparu'r cyfle i fynychu cyrsiau "blasu" yn y coleg ôl-16 lleol. Maent yn elwa oddi wrth gefnogaeth a chyfarwyddyd da wrth wneud dewisiadau am eu dyfodol.

119 Mae cysylltiadau da gyda MENCAP a Gyrfa Cymru yn galluogi disgyblion i ymgymryd â lleoliadau profiad gwaith yn llwyddiannus yn y gymuned leol. Rhoddir cyfleoedd i ddisgyblion ymweld ag amrywiaeth o leoliadau gwaith, ac mae cefnogaeth a chyngor da ar gael. Mae'r ysgol yn diwallu gofynion Llwybrau Dysgu 14-19 yn dda.

120 Gwneir darpariaeth dda iawn ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol yr holl ddisgyblion. Caiff raglen ABCh a ddyfeisiwyd yn dda ei gyflwyno'n effeithiol gan staff yr ysgol gyda mewnbwn priodol oddi wrth asiantaethau eraill megis y gwasanaethau iechyd a'r heddlu.

121 Mae systemau da iawn mewn lle i fonitro a thracio cynnydd disgyblion. Lle mae pryderon ynghylch presenoldeb neu ymddygiad disgyblion, gweithredir yn syth, gyda defnydd da yn cael ei wneud pan fydd angen asiantaethau cefnogaeth ychwanegol.

122 Cyfranna'r ysgol yn llwyddiannus i les ei disgyblion ac mae ei hethos cynhaliol yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i ddatblygiad hunan barch y disgyblion. Mae eisoes wedi derbyn pum deilen y rhaglen Ysgolion Iach ac mae ar hyn o bryd yn gweithio tuag at ddiweddaru'r wobr hon, ynghyd â gwobr platinwm y Faner Werdd. Yn ogystal â'r clwb brecwast ac amrywiaeth helaeth o glybiau gweithgareddau a chwaraeon, mae'n darparu anogaeth a chefnogaeth ardderchog i ddatblygiad iachus y disgyblion.

123 Hyfforddwyd yr holl staff i roi cymorth cyntaf ac mae gan yr ysgol berson dynodedig sydd wedi ei hyfforddi ar gyfer cymorth cyntaf. Mae systemau da mewn lle i ddelio gyda damweiniau.

124 Mae polisïau a gweithdrefnau amddiffyn plant yn gadarn. Y pennaeth yw'r swyddog dynodedig, mae staff wedi derbyn yr hyfforddiant priodol, ac mae llywodraethwr cyswllt dynodedig sydd yn gyfrifol am faterion amddiffyn plant.

125 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol o ansawdd uchel iawn ac yn gryfder yn yr ysgol. Caiff pob disgybl ei asesu'n ofalus a chaiff cynnydd ei fonitro'n drylwyr. Defnyddir data diagnostig yn effeithiol i ddatblygu cynlluniau addysgol unigol manwl sydd, yn eu tro yn bwydo i mewn i gynllunio gwersi. Mae gweithdrefnau asesu, cofnodi a chyflwyno yn dda iawn ac yn diwallu gofynion y Cod Ymarfer yn llawn.

126 Mae tri chydlynydd AAA yr ysgol yn cydweithio'n dda iawn ac yn sicrhau y darperir amgylchedd ddysgu ysgogol ar gyfer disgyblion sydd ag amrediad eang iawn o AAA. Mae'r cydlynwyr AAA yn brofiadol iawn, a defnyddiant eu harbenigedd i ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth i'r staff a'r rhieni, yn ogystal ag yn y gymuned ehangach. Er enghraifft, mae'r prosiect 'Early Bird' sy'n cefnogi rhieni'r plant awtistig, y cynllun chwarae ar gyfer disgyblion sydd ag anawsterau cymhleth, a'r rhaglen Cryfhau Teuluoedd wedi eu lleoli yn yr ysgol.

127 Mae'r cydlynwyr AAA yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau cynnal proffesiynol eraill, gan gynnal cyswllt cyson gyda'r seicolegydd addysg, y gwasanaeth lleferydd ac iaith, a'r gwasanaethau iechyd a chymdeithasol.

128 Mae staff addysgu a chynnal o fewn yr Uned Arbennig a'r dosbarthiadau arbennig yn hynod o fedrus. Maent yn llwyddo darparu cwricwlwm ysgogol sydd yn cydweddu'n dda ag anghenion unigol y disgyblion, yn ogystal ag amgylchedd gofalgar a chefnogol iawn. Mae disgyblion o fewn yr Uned Arbennig yn enwedig yn derbyn cefnogaeth o ansawdd uchel am eu hanghenion gofal personol a'u datblygiad cymdeithasol; mae ethos ardderchog o fewn yr Uned.

129 Derbynia disgyblion sydd ag anawsterau emosiynol neu ymddygiadol sesiynau mentora wythnosol, a pan fydd angen, cefnogaeth ychwanegol oddi wrth y tîm ymddygiad cymunedol. Defnyddia'r ysgol nifer o strategaethau llwyddiannus i gefnogi disgyblion sydd ag anawsterau llythrennedd. Mae staff hyfforddedig yn cyflwyno sesiynau Dal i Fyny a Dyfal Donc yn ddyddiol yn ogystal â rhaglenni ffonig i'r unigolyn.

130 Mae'r ysgol yn datblygu doniau unigol trwy amrywiaeth o glybiau a gweithgareddau megis y cynllun Awyr Las, a cheir llawer o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu doniau deallusol, creadigol a chwaraeon unigol.

131 Mae'r ysgol yn llwyddiannus wrth sicrhau caiff ei holl ddisgyblion eu trin yn gyfartal a chyda pharch. Mae'n gweithredu polisïau cydraddoldeb, yn darparu amgylchedd diogel a chynhwysol i'w holl ddisgyblion, beth bynnag yw eu hanghenion addysgol neu eu cefndir cymdeithasol neu hiliol.

132 Dywed disgyblion y teimlant cânt eu cefnogi'n dda gan y staff yn y dosbarth ac ar y buarth, a bod staff yn delio gydag unrhyw achosion o fwlian neu ymddygiad amhriodol yn effeithiol. Caiff disgyblion hefyd eu hannog i gefnogi ei gilydd trwy'r rolau 'bydi' maent yn ymgymryd â nhw yn ogystal â chyfrifoldebau 'helpwr y dydd'.

133 Mae gan yr ysgol Gynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl a Chynllun Hygyrchedd mewn lle. Caiff disgyblion sydd ag anableddau eu hintegreiddio'n dda iawn i fywyd yr ysgol ac maent yn rhan bwysig o gymuned yr ysgol. Cânt eu cefnogi'n dda gan y staff.

134 Caiff disgyblion y cyfle i ddysgu am amrywiaeth mewn cymdeithas trwy'r gwasanaethau gwerthoedd wythnosol, sy’n ymdrin â materion megis Masnach

Deg, ymwybyddiaeth o'r byd a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae'r ysgol yn weithredol wrth godi arian ar gyfer elusennau; mae disgyblion wedi cymryd rhan mewn codi arian ar gyfer trychineb Haiti, yn ogystal â chynnal dau ddisgybl o Affrica sydd wedi eu 'mabwysiadu' gan yr ysgol. Mae cwricwlwm ABCh ac addysg grefyddol yr ysgol yn darparu cyfleoedd pellach ar gyfer annog parch a goddefgarwch tuag at eraill o fewn ein cymdeithas amrywiol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

### Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?

**Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

135 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cytuno gyda'r arfarniad a wnaed gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu. Er dyfarnwyd Gradd 2 i gwestiwn allweddol 1, mae arolygwyr yn argyhoeddedig fod nodweddion rhagorol i'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth sydd yn haeddu Gradd 1. Mae uno'r ddwy ysgol a'r Uned Arbennig wedi ei rheoli'n effeithiol ac mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn gadarn. Nid oes digon o amser wedi mynd heibio i sicrhau effaith llawn yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth ailstrwythuredig ar safonau disgyblion.

136 Yn yr amser byr ers sefydlu Ysgol Bro Banw trwy uno'r cyn Ysgolion Babanod ac Iau Rhydaman a'r Uned Arbennig, mae'r pennaeth a'r tîm arweinyddol wedi gwneud cynnydd arbennig wrth greu cymuned ysgol gydlynol sydd â gweledigaeth gyfrannol ac ymdeimlad eglur o gyfeiriad. Mae staff a llywodraethwyr yn rhannu ymroddiad cryf i ddatblygu'r plentyn cyfan ac i’w baratoi ef i ddiwallu heriau'r unfed ganrif ar hugain. Mae nodau'r ysgol yn sicrhau cyfle cyfartal i bawb ar draws holl waith yr ysgol, boed yn narpariaeth y brif ffrwd neu yn y dosbarthiadau arbennig a'r Uned Arbennig. Er bod yr ysgol yn gweithredu ar dri safle ar wahân, sydd yn gorfodi teithio gyda char neu fws mini, caiff yr ysgol ei rheoli'n dda iawn ac mae'r drefniadaeth ddyddiol yn effeithlon iawn. Mae cynllunio a threfniadaeth fanwl ac effeithiol yn sicrhau cyfranogiad llawn yr holl staff a disgyblion yn holl weithgareddau'r ysgol.

137 Mae arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol iawn y pennaeth wrth galon holl ddatblygiad a gwelliant yr ysgol. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel o'i hunan ac o'r tîm arweinyddol, ac o'r holl staff addysgu, cynnal a gweinyddol. Mae wedi aildrefnu'r strwythur rheolaeth ar draws yr ysgol newydd a sefydlu a gwreiddio gweithdrefnau ar gyfer hunan arfarnu, cynllunio gwelliant ysgol a rheoli perfformiad.

138 Mae'r dirprwy bennaeth yn arwain yr addysgu a'r dysgu a'r monitro o'r ddarpariaeth a'r safonau yn effeithlon iawn, ac yn gweithio'n strategol ochr yn ochr gyda'r pennaeth ar staff i ryddhau’r arweinwyr cwricwlaidd er mwyn adolygu a monitro eu meysydd pwnc.

139 Caiff rolau'r arweinwyr cwricwlaidd eu diffinio'n eglur ac mae ganddynt ddealltwriaeth ardderchog o'u cyfrifoldebau ar gyfer gwella safonau ac ansawdd y ddarpariaeth. Maent yn ymdrin yn gydlynol a chyson gyda'r rheolaeth o'u pynciau ac mae ganddynt wybodaeth drylwyr o'r safonau a gyflawnir. Mae rhaglen fonitro gadarn yn cynnwys yr adolygiad o gynllunio athrawon, arsylwi gwersi, archwilio gwaith disgyblion a'r dadansoddi o ddata perfformiad. Cydweithia'r staff yn dda iawn fel tîm.

140 Rhydd yr ysgol ystyriaeth ragorol i flaenoriaethau cenedlaethol. Mae ei hymglymiad i'r rhaglenni Ysgolion Iach ac Eco-Sgolion wedi eu sefydlu ers

amser, ac mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd rhagorol yn y datblygiad o'r Cyfnod Sylfaen a'r cwricwlwm newydd ar gyfer CA2. Ceir ffocws eglur yn y gwersi ar ddatblygu medrau meddwl, medrau datrys problemau a medrau TGCh y disgyblion a dwyieithrwydd.

141 Mae'r CDY yn ddogfen waith cynhwysfawr sydd yn cynnwys nifer o flaenoriaethau cenedlaethol a mewnol ac yn gosod targedau heriol. Caiff y cynllun a'i heffaith ar fentrau yn yr ysgol ei fonitro'n rheolaidd.

142 Mae polisi a gweithdrefnau rheoli perfformiad yr ysgol yn effeithiol iawn. Caiff targedau eu cysylltu'n eglur a'r broses hunan arfarnu a'r CDY. Dynodir anghenion datblygiad staff ac mae trefniadau sydd wedi eu cynllunio'n dda mewn lle i ddarparu cyfleoedd ar gyfer cyrsiau a hyfforddiant mewnol. Gwna'r gweithdrefnau hyn gyfraniad amhrisiadwy at ansawdd yr addysgu a'r ddarpariaeth gwricwlaidd.

143 Mae'r pennaeth, y dirprwy a'r staff yn dadansoddi data perfformiad yr ysgol yn drylwyr ac yn gwneud defnydd da ohono er mwyn gosod targedau.

144 Mae'r corff llywodraethol yn cyflawni ei ddyletswyddau'n gydwybodol ac mae'n gefnogol iawn o waith a bywyd yr ysgol. Maent yn cwrdd yn rheolaidd fel corff llawn ac mewn pwyllgorau. Mae'r llywodraethwyr yn wybodus iawn am holl agweddau darpariaeth yr ysgol trwy adroddiadau'r pennaeth ac ymweliadau â'r ysgol. Cymrant rôl ragweithiol wrth weithio gyda'r pennaeth i reoli gwariant o'r gyllideb ac adeiladau'r ysgol ac i bennu cyfeiriad strategol yr ysgol. Mae ganddynt wybodaeth fanwl o heriau rheoli'r ysgol ar dri safle. Mae cynllun hygyrchedd cyfredol ar gael ar gyfer disgyblion, staff ac ymwelwyr anabl.

145 Sefydlwyd cysylltiadau cryf rhwng llywodraethwyr unigol a phynciau'r cwricwlwm, ac maent yn cymryd cyfrifoldeb am fonitro safonau a darpariaeth yn y pynciau hynny. Ceir llywodraethwyr cyswllt ar gyfer AAA.

146 Maent yn llwyr ymwybodol o'r gofynion rheoleiddiol a chyfreithiol ac yn eu diwallu'n llawn.

## Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

**Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

147 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cytuno gyda'r arfarniad a wnaed gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

148 Mae'r diwylliant hunan arfarnu sydd yn treiddio holl agweddau'r ddarpariaeth yn nodwedd ragorol ac yn gryfder yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn cynnwys yr holl randdeiliaid yn y broses yn gyson ac mae hunan arfarnu a'r ymdrechion tuag at welliant parhaus yn rhan annatod o'i bywyd a'i gwaith.

149 Mae'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli yn monitro'r addysgu a datblygiad athrawon yn gyson trwy weithdrefnau sydd yn cynnwys rheoli perfformiad hynod effeithiol. Caiff cryfderau'r staff ac unrhyw feysydd ar gyfer datblygiad eu dynodi'n eglur.

150 Mae rôl ysgol-gyfan y cydlynwyr pwnc wedi ei ddatblygu'n dda iawn. Gwna'r cydlynwyr gyfraniad pwysig tuag at hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn eu meysydd penodol trwy arfarnu cynllunio ac asesu, dilyniant yn y profiadau

dysgu a darpariaeth adnoddau. Mae pob cydlynydd yn cynhyrchu arfarniad pwnc manwl sy’n bwydo mewn i arfarniad cyffredinol yr ysgol.

151 Mae cyfraniad llywodraethwyr yr ysgol i'r broses hunan arfarnu yn un pwysig. Maent yn rhan weithredol o'r trefniadau ac yn cyfrannu'n helaeth at y drafodaeth.

152 Adlewyrcha'r athrawon yn dda ar eu haddysgu a chyflawniadau disgyblion ac mae'r staff cefnogi yn cynnal y broses hon yn effeithiol. Mae'r holl staff yn cyfrannu at y broses hunan arfarnu trwy holiaduron ac awgrymiadau ar gyfer rhaglen datblygiad yr ysgol ac maent yn llwyr ymwybodol o gyfeiriad strategol yr ysgol. Gwna'r athrawon ddefnydd da iawn o ddeilliannau asesiadau athrawon, profion safonedig ac asesu parhaus. Caiff datblygiad ei fonitro trwy'r defnydd o'r rhaglen INCERTS.

153 Ceir barn y disgyblion trwy'r cyngor ysgol a'r cyngor eco ac mae'r disgyblion a'r rhieni yn cwblhau holiaduron.

154 Mae'r CDY yn ddogfen waith ddefnyddiol y mae'r uwch tîm rheoli yn ei defnyddio i ddynodi meysydd ar gyfer datblygiad ac i flaenoriaethu adnoddau. Mae'n cyfeirio'n eglur at feini prawf llwyddiant, dyraniad amser, cyfrifoldebau a monitro'r effaith ar ddarpariaeth a safonau. Ceir cysylltiadau eglur gyda'r cylchoedd hunan arfarnu a rheoli perfformiad.

155 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cadarnhau barn yr ysgol mewn chwech o'r saith cwestiwn allweddol, gan roi gradd yn is i gwestiwn allweddol 1. Teimla'r tîm fod yr ysgol heb eto lwyddo codi safonau ar draws yr ysgol i lefel y gellir eu harfarnu'n rhagorol.

156 Gan mai hwn oedd yr arolygiad gyntaf a gynhaliwyd yn yr ysgol ers ei ffurfio, ni ellir gwneud unrhyw arfarniad o ran cynnydd ar faterion allweddol yr arolygiadau blaenorol.

## Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

**Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

157 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cytuno gyda'r arfarniad a wnaed gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

158 Mae'r ysgol wedi ei staffio'n dda iawn gan staff profiadol sydd â'r cymwysterau addas a gwybodaeth arbenigol a'r arbenigedd i addysgu holl agweddau'r cwricwlwm a diwallu anghenion y disgyblion yn effeithiol. Ceir nifer rhagorol o gymorthyddion addysgu a chymorthyddion addysgu lefel uwch sydd â'r medrusrwydd priodol. Maent yn cefnogi'r dysgu a'r addysgu yn hynod o dda. Mae ganddynt oll rolau eglur a chânt eu defnyddio'n dda fel tîm effeithiol. Gwnânt gyfraniad pwysig i'r gweithgareddau dosbarth. Mae'r bartneriaeth effeithiol hon, sydd yn nodwedd ragorol o'r ysgol, yn cyfrannu'n helaeth at y safonau a gyflawnir gan yr holl ddisgyblion.

159 Mae systemau gweinyddol effeithiol ac effeithlon mewn lle a rhydd y swyddog gweinyddol a'r staff clerigol gefnogaeth ragorol i'r pennaeth a'r staff. Mae rôl ychwanegol y gofalwr o oruchwylio'r disgyblion amser cinio o fudd mawr i'r ysgol ac yn nodwedd ragorol. Caiff dyletswyddau gofalwr, glanhau, arlwyo a chanol dydd eu cyflawni'n ddiwyd ac effeithiol. Mae'r drefniadaeth feunyddiol yn gadarn.

Maent oll yn aelodau gwerthfawr o'r ysgol a chânt eu gwerthfawrogi'n fawr a chyfrannant yn dda tuag at yr ysbryd cyd-dynnu ardderchog, gan gefnogi ei gilydd ar bob lefel er mwyn sicrhau y gofelir yn dda iawn am y disgyblion.

160 Mae'r ystod o adnoddau ar gyfer gefnogi'r profiadau dysgu ym mron yr holl ddosbarthiadau yn rhagorol ac effeithiol a gwneir defnydd effeithlon ohonynt. Mae bron yr holl bynciau wedi eu hadnoddu'n dda ac wedi eu trefnu'n dda iawn mewn modd sydd yn eu gwneud yn hygyrch i'r staff a'r disgyblion. Fodd bynnag, mae'r adnoddau ar gyfer dylunio a thechnoleg yn CA1 yn gyfyng. Mae prynu adnoddau TGCh a'r ystafell TGCh wedi arwain at welliant mewn safonau ac mae prynu amrediad o adnoddau ar gyfer y Cyfnod Sylfaen wedi cynnal y plant yn dda yn eu dysgu annibynnol. Mae amrediad da o lyfrau yn yr ardaloedd llyfrgell i ddiwallu diddordebau disgyblion unigol ac mae ardaloedd bychan wedi eu hadnoddu'n dda ar gyfer defnydd arbenigol.

161 Mae'r adeiladau mewn cyflwr da a gwneir defnydd effeithiol o'r gofod sydd ar gael o fewn yr ysgol. Yn adeilad y babanod, mae'r nodweddion da yn cynnwys ystafelloedd ar wahân ar gyfer celf a chrefft, y neuadd a darpariaeth y llyfrgell, yr ardaloedd dysgu tu allan i gefnogi dysgu amgylcheddol ac ardal y Cyfnod Sylfaen. Nodweddion da'r adeilad iau, yw'r ystafell gyfrifiaduron, yr ardaloedd ar gyfer cefnogi dysgu, yr ystafelloedd newid, y ddarpariaeth o neuadd ac ystafell fwyta ar wahân a'r ardaloedd dysgu y tu allan. Y nodweddion da yn yr Uned Arbennig yw'r ardal gyffredin a'r ardal chwarae feddal.

162 Mae'r amgylchedd mewnol yn olau ac yn ddeniadol. Mae byrddau arddangos gyda phenawdau dwyieithog yn dangos y balchder sydd gan ddisgyblion ac aelodau'r staff yn eu gwaith, eu hetifeddiaeth leol ac o fod yn Gymry. Trwy arddangosfeydd llawn gwybodaeth, mae'r ysgol yn hyrwyddo gweithgareddau'r ysgol ar draws y flwyddyn, megis ymweliadau addysgol, clybiau a'r cyngor ysgol.

163 Mae'r dosbarthiadau, yn enwedig yn adeilad y babanod yn orlawn ac nid oes ganddynt fynediad syth i'r ardaloedd allanol. Nid ydynt yn addas gogyfer â chyflwyno'r Cyfnod Sylfaen i B1 a B2. Mae'r ddau safle ar wahân yn gwneud rhediad esmwyth yr ysgol yn her feunyddiol. Fodd bynnag, mae'r ysgol yn disgwyl i adeilad newydd gael ei adeiladu yn y dyfodol gymharol agos, bydd yn ymdrin â'r problemau hyn.

164 Mae ailfodelu'r gweithlu wedi creu tîm cryf ac arwain at wneud cynnydd da wrth gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen a'r cwricwlwm sgiliau a'i rheolaeth effeithiol. Mae'r drefniadaeth dosbarth yn briodol. Ar y cyfan caiff amser gwers ei ddefnyddio'n effeithiol er mwyn i'r plant gadw ffocws da.

165 Caiff y staff cynnal eu cynnwys yn llwyr yn y cynllunio, yr asesu a'r cofnodi o waith disgyblion. Cydweithiant yn agos a mynychu cyrsiau hyfforddiant gyda'i gilydd er mwyn sicrhau dilyniant yn yr ymdriniaeth ac mewn datblygiad staff. Mae trefniadau ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu yn arwain at gynnal safonau uchel. Ceir datblygiad proffesiynol priodol o'r holl staff. Cynhelir hyfforddiant yn fewnol ac yn allanol ac mae'r rhaglen wedi ei gysylltu â blaenoriaethau'r ysgol a rhai cenedlaethol a dynodir anghenion unigol trwy'r system rheoli perfformiad.

166 Gwna'r ysgol ddefnydd hynod effeithlon, effeithiol ac economaidd o'i hadnoddau, gan gysylltu penderfyniadau gwariant gyda blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r arweinwyr cwricwlaidd yn cynnal archwiliadau blynyddol yn eu meysydd pwnc, yn dynodi anghenion adnoddau a'u blaenoriaethu. Rhydd y swyddog gweinyddol

gefnogaeth ragorol i'r pennaeth wrth osod ac adolygu'r gyllideb. Mae'r systemau'n drylwyr ac yn sicrhau costio gofalus o'r blaenoriaethau ar gyfer datblygiad ac ymgynghoriad parhaus gyda phwyllgor cyllid y corff llywodraethol.

167 Rhydd Ysgol Bro Banw gwerth da iawn am arian. Mae hyn yn amlwg yn ansawdd y gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth a rhoddir i ddisgyblion, cyfoeth y ddarpariaeth gwricwlaidd, ansawdd rhagorol yr addysgu, sut mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu a gwella ansawdd a safonau ac arweinyddiaeth hynod effeithiol y pennaeth.

## Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu

### Y cyfnod sylfaen ar gyfer plant dan bump oed

168 Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer y plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion a gwna'r plant gynnydd da tuag at ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen.

### Datblygiad personol a chymdeithasol, lles a datblygiad diwylliannol

**Meithrin: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**
**Derbyn: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

#### Nodweddion rhagorol

169 Mae'r plant yn hapus a hyderus wrth ddod i'r ysgol ac maent yn dysgu’n frwdfrydig.  Mae ganddynt berthnasau da iawn gyda'i gilydd a gyda'r ymarferwyr. Maent yn canolbwyntio'n dda iawn ac yn gweithio'n galed.

170 Mae'r plant hŷn yn y Derbyn yn fodelau rôl da iawn i'r plant sydd newydd gychwyn, oherwydd bod eu medrau personol a chymdeithasol wedi eu datblygu'n dda. Maent yn gwybod y drefniadaeth yn dda, yn ymgartrefu i'w tasgau'n gyflym ac maent yn ddysgwyr hapus a diogel.

171 Mae'r plant Meithrin a Derbyn yn wrandawyr ardderchog, ac yn gallu dilyn cyfarwyddiadau a chyd-chwarae'n dda.

172 Mae gallu'r plant Derbyn i ganolbwyntio am gyfnodau hir o amser yn dda iawn. Maent yn cymryd eu tro, yn barod i rannu cyfarpar ac yn cyd-weithio. Maent yn cwblhau tasgau o fewn amser penodol ac mae eu gallu i gyfathrebu a chymdeithasu mewn grwpiau bach yn dda iawn. Mae’u hymddygiad yn ganmoladwy ac maent yn ddysgwyr annibynnol.

173 Maent yn mwynhau eu profiadau tu allan ac yn deall rheolau syml i sicrhau eu hiechyd a'u diogelwch. Maent yn croesawu profiadau newydd gyda brwdfrydedd a hyder. Trwy weithgareddau megis deor cywion o wyau yn y dosbarth, maent yn gallu deall fod angen trin pethau byw gyda gofal, parch a chonsyrn.

174 Dechreua'r plant derbyn ddatblygu dealltwriaeth gadarnhaol o'u diwylliant eu hunain a diwylliannau eraill.

175 Mae plant y Meithrin a'r Derbyn yn deall pwysigrwydd agweddau o hylendid, megis ymolchi eu dwylo.

#### Diffygion

176 Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

## Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu

**Meithrin: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**
**Derbyn: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

### Nodweddion rhagorol

177 Gwna'r plant Derbyn cynnydd da iawn oherwydd derbyniant gyfleoedd diddorol i wrando ac i siarad. O ganlyniad, maent yn siarad yn eglur a hyderus iawn gan fynegi eu safbwyntiau'n dda.

178 Mae'r plant Derbyn yn mwynhau llyfrau a storïau. Mae ganddynt gyflenwad da iawn o eiriau cyfarwydd. Mae'r plant hŷn yn darllen gyda mynegiant a defnyddiant eu gwybodaeth o seiniau llythrennau'n dda i ddarllen geiriau newydd a sefydlu ystyr, er enghraifft, 'hufen ia'. Datblyga'r plant eu medrau ffonig yn dda a dengys y rhan fwyaf ohonynt adalw da o'r seiniau ffonig maent wedi eu dysgu.

### Nodweddion da

179 Siarada'r plant Meithrin yn briodol ac ymatebant i gwestiynu ar eu diddordebau a'u gweithgareddau. Ffurfiant berthnasau da gyda'r staff addysgu a chynnal a gyda'u cymheiriaid.

180 Caiff medrau'r plant iau a'r rhai hŷn eu hymestyn ymhellach trwy wahanol sefyllfaoedd chwarae rôl megis y caffi ar lan y môr. Defnyddia llawer ohonynt yr ardal tu allan fel ysgogiad ychwanegol ar gyfer eu sgyrsiau gydag eraill; defnyddiant eirfa briodol mewn sefyllfaoedd digymell a strwythuredig.

181 Mae medrau ysgrifennu cynnar plant yn datblygu'n dda. Mae'r plant Meithrin yn mwynhau amrediad o weithgareddau i wella eu medrau llawdrin cyn-ysgrifennu. Mae llawer o'r plant meithrin yn datblygu eu sgiliau cynnar ysgrifennu'n fedrus a gwnânt gynrychioliadau cywir o lythrennau a geiriau syml trwy ddefnyddio ystod dda o offer a deunyddiau.

182 Ar draws y Cyfnod Sylfaen, mae'r holl blant yn gallu trosglwyddo eu medrau cyfathrebu i feysydd dysgu eraill.

### Diffygion

183 Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

## Datblygiad iaith Gymraeg

**Meithrin: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**
**Derbyn: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

### Nodweddion da

184 Gwna'r plant ar draws y Cyfnod sylfaen gynnydd da yn eu datblygiad o'r iaith Gymraeg a mwynhânt ddefnyddio'r iaith yn ystod cyfnodau trafod a rhannu. Defnyddiant eiriau syml a chyfarchion yn gywir.

185 Mae'r plant Derbyn yn deall gorchmynion syml yn y Gymraeg ac yn ymgymryd â'r tasgau syml a ofynnir iddynt gyflawni, megis mewn gwersi addysg gorfforol a gweithgareddau ffocws eraill yn y dosbarth.

186 Mae'r holl blant yn ymuno'n frwdfrydig gyda chaneuon a rhigymau yn Gymraeg. Ar y cyfan mae ynganiad y plant Derbyn yn dda ac yn eglur.

### Diffygion

187 Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

## Datblygiad mathemategol

**Meithrin: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**
**Derbyn: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

### Nodweddion rhagorol

188 Mae'r plant Derbyn yn datblygu eu medrau yn gysylltiedig â phwysau a chynhwysedd trwy eu gweithgareddau chwarae yn y tywod a'r dŵr a thrwy gymryd rhan mewn gweithgareddau pobi. Defnyddiant eirfa fathemategol yn effeithiol wrth ymgymryd â thasgau.

189 Mae'r plant hŷn yn adnabod pwysigrwydd arian yn yr ardal chwarae rôl wrth iddynt arbrofi gyda thalu a rhoi newid yn y siop-caffi glan môr.

190 Mae'r plant derbyn yn rhifo'n gywir i 20 a thu hwnt. Deallant adio hyd at 10 ac yn gallu enwi ystod o siapau dau a thri-dimensiwn a dynodi eu priodweddau. Maent yn mewnbynnu cyfarwyddiadau de a chwith, ymlaen ac yn ôl yn gywir i degan symudol yn effeithiol, er enghraifft, Bee-bot i'w alluogi i gyrraedd pen ei daith. Defnyddia'r plant rhaglenni cyfrifiadur yn gymwys.

### Nodweddion da

191 Mae plant yn deall yn gyflym fod mathemateg yn rhan o fywyd bob dydd oherwydd bod yr ymarferwyr yn eu helpu i gyfrif ac i amcangyfrif yn aml yn ystod gweithgareddau chwarae bob dydd y tu fewn a thu allan i'r dosbarth.

192 Mae'r holl blant yn mwynhau gweithgareddau rhifo ac yn ymuno mewn rhigymau rhif, caneuon a gemau rhifo gyda brwdfrydedd. Mae'r plant Meithrin a Derbyn yn ymroi yn llawn i amrediad o weithgareddau sydd yn eu cynorthwyo i gydweddu, didoli, trefnu a rhifo.

193 Mae'r plant meithrin yn rhifo'n hyderus hyd at 10. Maent yn adnabod siapau dau a thri-dimensiwn rheolaidd ac yn copïo a gorffen patrymau.

### Diffygion

194 Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

## Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

**Meithrin: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**
**Derbyn: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

### Nodweddion rhagorol

195 Mae bron yr holl blant pedair a phum mlwydd oed yn datblygu eu chwilfrydedd mewn modd rhagorol wrth arbrofi'n ymarferol gyda chychod mewn gweithgaredd suddo/arnofio. Maent yn hyderus i fynegi eu safbwyntiau o fewn grŵp.

196 Rhydd y plant Derbyn gyfarwyddiadau syml i degan rhaglenadwy, Bee-bot, yn gymwys iawn i'w helpu i symud a throi yn gywir.

197 Mae gan y plant Derbyn ymwybyddiaeth dda iawn o'r cysyniad o newid, gaiff ei gyfnerthu wrth iddynt astudio lluniau glan môr o'r gorffennol a'u cymharu gyda heddiw. Maent yn datblygu dealltwriaeth dda o newid a thyfu wrth wylio'r cywion yn deor yn y dosbarth.

198 Mae medrau ymchwiliol y plant Derbyn yn ardderchog. Maent yn gallu datrys problemau syml yn hyderus.

**Nodweddion da**

199 Mae'r plant Meithrin a Derbyn yn cydweithio gydag oedolyn i wneud hufen iâ a brechdanau ar gyfer eu picnic glan môr. Gwyddant enwau'r cynhwysion ac yn adnabod eu lliwiau. Roedd cliwiau llun ar gardiau yn cynorthwyo'r plant i ddilyn y cyfarwyddiadau. Mae plant yn sylwi sut mae sylweddau'n newid.

200 Mae'r plant meithrin yn dechrau datblygu medrau mapio cynnar wrth edrych ar lefydd ar 'Google Earth'. Maent hefyd yn arbrofi gydag amrywiaeth o ffynonellau sain.

**Diffygion**

201 Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

**Datblygiad corfforol**

**Meithrin: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**
**Derbyn: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

**Nodweddion rhagorol**

202 Mae holl blant y Meithrin a'r Derbyn yn datblygu sgiliau llawdrin manwl mewn modd rhagorol. Maent yn trin offer bychan, megis siswrn, pensil a brwsh paent, gyda rheolaeth dda iawn ac yn datblygu medrau helaeth. Maent hefyd yn trin cyfarpar adeiladu bychan a deunyddiau megis clai a thoes chwarae gyda deheurwydd.

203 Cyfranoga'r plant meithrin yn frwdfrydig mewn gweithgareddau corfforol yn y neuadd ac mewn ardaloedd tu allan. Datblyga'r plant eu hymwybyddiaeth o ofod yn hyderus iawn. Mae plant yn llwyr ddeall ac yn egluro'r angen i ymgynhesu ac ymoeri yn eu sesiynau addysg gorfforol yn y neuadd. Maent yn rhedeg, neidio, hercian a glanio'n briodol.

204 Arddangosant lefel uchel iawn o ymroddiad wrth iddynt chwarae rôl diwrnod ar lan y môr.

**Nodweddion da**

205 Mae'r plant meithrin a derbyn yn symud o amgylch y dosbarth yn hyderus gyda rheolaeth a chydlyniant cynyddol.

206 Mae'r plant meithrin yn dal a thaflu peli mawr a bach yn gywir a gyda hyder.

207 Arddangosa'r holl blant gymhwysedd cynyddol wrth symud llygoden' y cyfrifiadur i roi lluniau'n briodol ar y sgrin ac i lusgosod eitemau ar y sgrin yn gywir.

**Diffygion**

208 Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

**Datblygiad creadigol**

**Meithrin: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**
**Derbyn: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

**Nodweddion rhagorol**

209 Mae plant yn archwilio ac arbrofi gydag amrediad eang o dechnegau celf a chrefft gyda hyder a medrusrwydd. Mae'r rhain yn cynnwys torri, gludo, paentio, cymysgu lliwiau, cwblhau poteli tywod, argraffu a gwneud patrymau. Gwnânt

ddewisiadau o ran deunydd, lliw a siâp. Mae'r lluniau yn y dosbarthiadau yn drawiadol ac yn wreiddiol a chreant ddarluniau lliwgar ac effeithiol.

210 Arddangosa'r plant Derbyn ymwybyddiaeth gynyddol o'r broses greadigol wrth iddynt wehyddu tonnau'r môr.

211 Mae'r plant Meithrin a Derbyn yn gwneud brechdanau'n llwyddiannus ar gyfer eu picnic ar lan y môr ynghyd â lolipops a hufen iâ o wahanol flasau.

212 Mae'r plant dan bump yn trin offer bychan yn effeithiol i greu eu hufen iâ allan o glai. Maent yn canolbwyntio, addasu ac addurno eu gwaith, ac mae'r deilliannau o ansawdd ardderchog.

**Nodweddion da**

213 Mae'r plant Meithrin a Derbyn yn cyfrannu'n ddychmygus wrth chwarae rôl, yn enwedig wrth iddynt chwarae yn y caffi a thu allan fel cyrchfan glan môr.

214 Mae'r plant yn y meithrin a'r derbyn yn ymuno'n frwdfrydig yn y gweithgareddau cerddorol a chaiff hyn effaith cadarnhaol ar y cynnydd a wnânt. Mae'r rhan fwyaf yn gallu adalw amrediad o ganeuon a rhigymau. Mae medrau cerddorol sydd yn cynnwys rhythm ac amrediad o offerynnau hefyd yn amlwg.

**Diffygion**

215 Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

## Cymraeg iaith gyntaf

**Cyfnod allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**
**Cyfnod allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

**Nodweddion da**

216 Ar draws yr ysgol mae disgyblion yn gwrando'n dda iawn ar eu hathrawon a'u cyfoedion mewn sefyllfa dosbarth cyfan ac mewn parau a grwpiau. Maent yn rhannu syniadau gyda'u partneriaid siarad ac yn hyderus wrth eu hadrodd yn ôl i ddosbarth cyfan. Mynegant farn yn effeithiol mewn sesiynau gwerthuso ar ddiwedd gwersi.

217 Mae disgyblion CA1 yn darllen yn rhugl yn ôl eu hoed a'u gallu. Maent yn defnyddio strategaethau ffonig a chliwiau gweledol wrth ddadansoddi geiriau.

218 Mae pob disgybl yn adnabod teitl llyfr, yr awdur a'r cyhoeddwyr. Dangosant fwynhad wrth ddarllen. Defnyddiant fynegiant da wrth ddarllen i gynulleidfa. Maent yn adnabod ac yn trafod cymeriadau ac yn siarad yn gyffrous am eu hoff lyfrau. Dangosant ddealltwriaeth dda o drefn a dilyniant stori a rhagfynegant yn dda.

219 Mae sgiliau darllen disgyblion CA2 yn datblygu'n dda. Siaradant yn frwdfrydig am eu hoff storïau, ac maent yn hoff o ddefnydd hiwmor mewn stori. Gwnânt ddefnydd da o ystod o lyfrau ffuglen a ffeithiol. Defnyddiant eu sgiliau darllen yn dda wrth ymchwilio gwefannau ac wrth ddarganfod llyfrau mewn llyfrgell gan ddeall y systemau trefnu yn dda.

220 Mae sgiliau ysgrifennu disgyblion CA1 yn datblygu'n dda. Ar ddiwedd B1 mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn ysgrifennu brawddegau llawn ac yn gwneud defnydd da o ffurf gryno'r ferf. Defnyddiant enwau priod a chyffredin a dewisant

ansoddeiriau addas i ddisgrifio, er enghraifft y Santes Dwynwen. Casglant wybodaeth ac ysgrifennant frawddegau diddorol am eirth eira.

221 Yn B2, mae'r mwyafrif yn ysgrifennu'n dda at wahanol bwrpasau ar draws y cwricwlwm, gan ddefnyddio ysgrifen daclus, geirfa briodol ac atalnodi cywir.

222 Yn CA2, wrth drafod stori "Trafferth i Letang a Sioned" dengys y mwyafrif o ddisgyblion eu dealltwriaeth o anghenion anifail anwes drwy lenwi manylion cywir ar gerdyn adnabod anifail, gan ddefnyddio gwybodaeth i greu poster, a thrwy ysgrifennu cyfarwyddiadau ar sut i ofalu am fochdew.

223 Yn eu disgrifiadau o glown, defnyddiant idiomau fel "yn wên o glust i glust" a chymariaethau fel "yn wyrdd fel y gwair" yn effeithiol a gwnânt ddefnydd da o ansoddeiriau. Yn eu storïau am Gelert defnyddiant ffurf gryno'r ferf yn y person cyntaf yn gywir ac yn effeithiol.

224 Wrth baratoi i greu llyfr i blant iau mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn deall y broses o ysgrifennu i amrywiaeth o symbyliadau clywedol a gweledol. Yn eu gwaith darllen a deall mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn ymateb yn dda gan ddefnyddio iaith safonol. Wrth wella ar stori "Antur yn yr eira" dangosant ffurf sicr stori a defnyddiant gonfensiynau iaith dda. Ysgrifennant gerddi am fwyta'n iach a gwaith acrostig yn effeithiol.

225 Mae medrau llawysgrifen, sillafu a defnyddio geiriadur yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol.

### Diffygion

226 Nid oes diffygion arwyddocaol ond ar lafar mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn ateb "ie" i gwestiynau "ydych" ac "oes".

## Saesneg

**Cyfnod allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**
**Cyfnod allweddol 2: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

### Nodweddion rhagorol

227 Yn CA2, mae'r disgyblion yn cynhyrchu enghreifftiau rhagorol o ysgrifennu estynedig ar draws amrediad o bynciau megis hanes ac addysg grefyddol, ac ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd.

228 Ysgrifenna disgyblion CA2 yn greadigol ac angerddol am destunau o ddiddordeb cyfoes megis cynaliadwyedd, gan ddefnyddio enghreifftiau o farddoniaeth i godi emosiynau.

229 Mae disgyblion CA2 yn ysgrifennu mewn amrywiaeth eang o genres gan gynnwys dialogau a barddoniaeth.

### Nodweddion da

230 Gwrendy disgyblion CA1 yn ofalus ar esboniadau eu hathrawon a hefyd ar y cyfraniadau a wneir gan ddisgyblion eraill. Maent yn gwrando'n ofalus ar storïau, yn gallu trefnu digwyddiadau ac ailadrodd y wybodaeth bwysig gan ddefnyddio geiriau eu hunain. Maent yn siarad yn hyderus mewn amrywiaeth o gyd-destunau a chydweithiant yn dda gydag eraill mewn trafodaethau.

231 Gwna'r disgyblion gynnydd da wrth ddarllen yn CA1. Yn B1, mae llawer o ddisgyblion yn gallu adnabod a darllen y geiriau gaiff eu harddangos yn y

dosbarth. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae'r disgyblion mwy galluog yn darllen o amrywiaeth o ffynonellau ac mae'r disgyblion hyn yn arddangos dealltwriaeth dda o gymeriadau, gosodiadau a strwythur storïau. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymagwedd gadarnhaol tuag at ddarllen ac maent yn tynnu ar amrediad o strategaethau darllen i'w helpu i ddatgodio geiriau anghyfarwydd a deall y testun.

232 Mae cynnydd mewn ysgrifennu'n dda yn CA1; mae llawer o ddisgyblion yn ffurfio geiriau'n gywir, ac yn deall sut i ddefnyddio prif lythrennau ac atalnodau llawn yn gywir. Mae'r rhai mwy galluog yn gallu ysgrifennu darnau ymestynnol o waith mewn dull trefnus ar draws amrediad o destunau gan gynnwys ysgrifennu creadigol.

233 Yn CA2, mae medrau gwrando yn dda iawn; gwrendy'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ofalus ar eu hathrawon ac ar eu cymheiriaid. Mae'r disgyblion yn cadw eu ffocws am gyfnodau estynedig ac yn ateb cwestiynau mewn brawddegau llawn neu gymalau. Cydweithiant yn effeithiol mewn trafodaethau pâr, grŵp a dosbarth-cyfan.

234 Gall disgyblion gael mynediad i wybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau, wedi ei argraffu neu ar y sgrin. Darllena'r rhan fwyaf yn rhugl ar goedd ac mae llawer yn gwneud hyn yn effeithiol a chyda mynegiant. Gofynnant gwestiynau am y testunau maent yn eu hymchwilio ac yn gallu cynnig ffynonellau gwybodaeth. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu dynodi enwau, berfau, ansoddeiriau ac adferfau. Erbyn B6, mae llawer o ddisgyblion yn hyderus wrth drafod eu hoff awduron, y plot a'r cymeriadau o fewn stori. Mae'r rhai mwy galluog yn darllen gyda mynegiant gan ddefnyddio gwahanol leisiau ar gyfer gwahanol gymeriadau, ac yn gwneud rhagfynegiadau synhwyrol am sut bydd y stori'n datblygu.

235 Yn CA2, mae disgyblion yn deall y confensiynau ar gyfer gwahanol fathau o ysgrifennu. Ysgrifennant gan ddefnyddio llawysgrifen a ffurfiwyd yn dda, a chyflwynant eu gwaith yn daclus.

**Diffygion**

236 Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

**Cymraeg ail iaith**

**Cyfnod allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**
**Cyfnod allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

**Nodweddion da**

237 Yn y ddau gyfnod allweddol, arddangosa'r disgyblion ymagweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg.

238 Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, maent yn datblygu hyder cynyddol yn eu defnydd o'r Gymraeg. Mae disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn defnyddio'r bwrdd gwyn rhyngweithiol i ddatblygu eu gwybodaeth o'r iaith.

239 Yn CA1, mae disgyblion yn siarad yn eglur ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gyfarchion a chymalau syml. Ymatebant yn dda i gyfarwyddiadau'n gywir ac atebant gwestiynau'n hyderus gan ddefnyddio patrymau iaith cyfarwydd ar destunau cyfarwydd megis y tywydd neu drafnidiaeth.

240 Gwna disgyblion CA1 gynnydd da gyda'u medrau darllen gan ddangos dealltwriaeth briodol o destun. Ysgrifenna'r disgyblion frawddegau syml yn seiliedig ar batrymau cyfarwydd.

241 Arddangosa disgyblion CA2 fedrau siarad a gwrando da ac ymatebant gyda brwdfrydedd. Defnyddiant yr iaith yn hyderus i ateb amrywiaeth o gwestiynau ac arddangosant ddilyniant da mewn patrymau a ddysgwyd yn flaenorol.

242 Defnyddia disgyblion CA2 amrywiaeth o ddeunyddiau effeithiol a gwnânt gynnydd da yn eu medrau darllen. Darllenant ddeialogau a llyfrau gyda mynegiant.

243 Yn CA2, mae disgyblion yn atgyfnerthu eu gwaith llafar mewn amrediad o weithgareddau ysgrifennu a defnyddiant batrymau cyfarwydd i ysgrifennu brawddegau, deialogau, dyddiaduron, holiaduron a llythyron yn gywir. Maent yn cymhwyso eu medrau ysgrifennu'n llwyddiannus i feysydd eraill o'r cwricwlwm.

### Diffygion

244 Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

## Mathemateg

### Cyfnod allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
### Cyfnod allweddol 2: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

### Nodweddion rhagorol

245 Gwna disgyblion CA2 ddefnydd effeithiol iawn o fedrau meddwl yn eu mathemateg y pen, ac maent yn hyderus wrth ddefnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o briodweddau rhif i ddatrys problemau a chyflawni ystod o waith ymchwiliol.

246 Mae disgyblion CA2 yn cyflwyno data yn eglur iawn mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys siartiau cyfrif, siartiau cylch a phictogramau, amrediad o raffiau a thaenlenni ac yn defnyddio TGCh yn hynod effeithiol yn y cyd-destun hwn. Maent yn dehongli a dadansoddi eu gwaith yn gywir.

247 Mae gan ddisgyblion hŷn CA2 wybodaeth gadarn o luosrifau, ffactorau, rhifau cysefin, rhifau triongl a sgwâr. Mae ganddynt afael da iawn ar werth lle rhifau pum digid. Gallant gynnig amcangyfrifon rhesymol o atebion i broblemau rhif ac maent yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gyfrifo'r atebion i broblemau mathemateg y pen. Maent yn gwybod bod ffurfiau degol, ffracsiwn a chanran yn gallu bod yn gyfartal i'w gilydd, ac yn gallu talgrynnu degolion i'r degfed agosach. Maent yn lluosi a rhannu ffracsiynau gyda chywirdeb.

248 Mae gan ddisgyblion B5 ddealltwriaeth dda iawn o linellau perpendicwlar a pharalel ac o'r termau llorweddol a fertigol. Mae disgyblion B6 yn gwybod priodweddau ystod eang o siapau dau-ddimensiwn, ac yn gallu cyfrifo perimedr ac arwynebedd yn gywir. Datblygant afael da ar raddfa, a gallant amcangyfrif a mesur onglau gyda hyder. Mae ganddynt wybodaeth dda o onglau llem, aflem a sgwâr, a gallant gyfrifo onglau triongl. Mae ganddynt ddealltwriaeth ardderchog o gymesuredd adlewyrchiad ac echelinau, ac maent yn defnyddio cyfesurynnau'n gywir. Datblygant ddealltwriaeth dda o debygolrwydd a gwnânt ragfynegiadau addas.

### Nodweddion da

249 Yn CA1, gwna disgyblion gynnydd da mewn mathemateg a chyflawnant safonau sydd yn cydweddu eu hoed a'u gallu. Arddangosant fedrau rhif da. Mae

ganddynt ddealltwriaeth gadarn o fondiau adio a thynnu hyd at 10 ac 20, ac mae mwyafrif y disgyblion yn gallu rhifo ymlaen ac yn ôl mewn deuoedd, pumoedd a degau gan ddefnyddio llinell rhif.

250 Mae disgyblion CA1 yn datblygu dealltwriaeth gadarn o werth lle rhifau dau ddigid ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn gywir i drefnu rhifau. Maent yn adnabod cyfresi o rifau syml, gan gynnwys odrifau ac eilrifau. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion afael cadarn ar syniadau megis 'mwy', 'llai' a 'faint sydd ar ôl' ac maent yn deall iaith fathemategol dyblu a haneru. Maent yn dynodi ffracsiynau syml megis ½ a ¼. Mae gan y disgyblion hŷn medrau mathemateg y pen cadarn a gallant egluro'r dulliau a ddefnyddiant i ddod o hyd i atebion.

251 Gall disgyblion CA1 ddynodi'r darnau arian mwyaf cyffredin ac maent yn gallu adio darnau syml o arian yn gywir i wneud gwahanol gyfansymiau. Maent yn datblygu dealltwriaeth dda o fesuriadau ansafonol a safonol megis metrau a chentimetrau. Gall disgyblion ddynodi amrediad o siapau dau-ddimensiwn yn dda a thrafod eu priodweddau'n hyderus. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion B2 afael da ar siapau tri-dimensiwn a datblygant ddealltwriaeth dda o'u priodweddau. Maent yn dechrau deall cymesuredd siapau syml a throeon hanner a chwarter clocwedd a gwrthglocwedd. Dywed y disgyblion hŷn yr amser yn dda a thrafod eu priodweddau'n hyderus. Mae'r disgyblion hŷn yn dweud yr amser ar gloc analog mewn oriau a hanner oriau.

252 Mae disgyblion CA1 yn trin data'n hyderus. Maent yn casglu gwybodaeth yn systematic gan ddefnyddio siart cyfrif ac yn cyflwyno'r canlyniadau mewn amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys graffiau bar a bloc a phictogramau. Gallant ddehongli eu canfyddiadau'n ystyrlon.

253 Mae disgyblion ieuengaf CA2 yn rhifo ymlaen ac yn ôl yn hyderus mewn pumoedd, degau, pumdegau a channoedd. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn iawn o werth lle rhifau pedwar digid a'r pedwar gweithred rhif, ac maent yn talgrynnu rhifau i'r 10 agosaf. Defnyddiant iaith fathemategol, gan ddangos dealltwriaeth o luosrifau a ffactorau. Deallant ffracsiynau syml megis $^1/_3$, $^1/_5$ a $^1/_8$, a gallant ddynodi'r ffracsiynau siapau a rhifau. Mae gan ddisgyblion B4 ddealltwriaeth gadarn o ffracsiynau cywerth a chymysg. Maent yn ymchwilio adio odrifau ac eilrifau mewn gwahanol gyfuniadau.

254 Gall ddisgyblion B3 ddynodi amrediad da o siapau tri-dimensiwn a thrafod eu hwynebau, ymylon a'u fertigau'n hyderus. Mae gan ddisgyblion B4 wybodaeth gadarn o drionglau hafalochrog, isosgeles ac ongl-sgwâr a rhai o'u priodweddau. Datblygant ddealltwriaeth dda o linellau cymesuredd. Mae ganddynt wybodaeth gadarn o bwyntiau'r cwmpawd, ac yn deall beth yw ongl sgwâr. Maent yn cyfrifo mesuriadau mewn metrau, centimetrau a milimetrau ac yn newid metrau i gilomedrau, ac yn datblygu dealltwriaeth o litrau a mililitrau. Maent yn darllen cloc analog mewn munudau wedi ac i'r awr ac yn gallu cyfrifo treigl amser mewn oriau a munudau.

**Diffygion**

255 Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

## Gwyddoniaeth

**Cyfnod allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**
**Cyfnod allweddol 2: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

### Nodweddion rhagorol

256 Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion CA2 o bob gallu yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dda iawn mewn perthynas â'r testunau maent yn eu hastudio.

257 Datblyga'r mwyafrif o ddisgyblion CA2 fedrau rhagorol wrth gynnal ymchwiliadau.

### Nodweddion da

258 Mae disgyblion ar draws CA1 yn datblygu gwybodaeth dda am blanhigion ac anifeiliaid. Maent yn ffocysu'n effeithiol ar blannu hadau a'r broses tyfu. Ar lefelau priodol, mae ganddynt wybodaeth dda o bwysigrwydd y synhwyrau a rhannau'r corff ac ymwybyddiaeth dda o bwrpas sgerbwd.

259 Fel rhan o'i gwaith rhagarweiniol i'r testunau grymoedd a symud, datblyga'r mwyafrif o ddisgyblion ar draws CA1 ddealltwriaeth dda o'r ffactorau sydd yn dod a symudiad mewn gwahanol fathau o gerbydau. Ar lefelau priodol, mae disgyblion yn hybu eu dealltwriaeth wrth iddynt arbrofi gyda'r gwahanol ffyrdd o drafnidiaeth maent wedi creu.

260 Arddangosa'r rhan fwyaf o ddisgyblion CA1 fedrau rhagfynegi ac ymchwilio da wrth iddynt archwilio'r berthynas rhwng oed plentyn a'i daldra. Maent yn dosbarthu ac yn newid deunyddiau wrth iddynt ymchwilio effaith ychwanegu dŵr i wahanol solidau ac yn eu harbrofion yn gysylltiedig ag effaith gwahanol dymheredd ar ddŵr. Mae'r mwyafrif yn dechrau datblygu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd prawf teg ac yn cyflwyno'u canfyddiadau'n effeithiol mewn gwahanol ffyrdd gan gynnwys defnyddio graffiau.

261 Ar lefelau priodol ar draws CA2, mae disgyblion yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dda o nifer o nodweddion yn gysylltiedig â phrosesau bywyd. Dealla'r disgyblion hŷn yr amrywiaeth mewn cynefinoedd a sut mae anifeiliaid yn gweddu i’w hamgylchedd. Gwnânt ddefnydd da o allweddau yn y cyd-destun hwn.

262 Mae disgyblion ar draws y cyfnod allweddol, ac yn enwedig y disgyblion hŷn, yn arddangos dealltwriaeth dda o'r cysyniad o drydan. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod sut mae sain a golau'n teithio. Mae ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth dda o gysawd yr haul ac maent wedi ymchwilio cysyniadau grym a ffrithiant yn effeithiol.

263 Yn B3, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o wahanol fathau o solidau a hylifau. Arddangosant fedrau rhagfynegi ac arsylwi da wrth iddynt ymchwilio i effeithiau cymysgu amrywiol solidau a hylifau. Maent yn nodi fod solidau penodol yn toddi tra bod eraill ddim.

264 Datblyga disgyblion yn B4 a B5 ddealltwriaeth dda iawn o briodweddau solidau, hylifau a nwyon ac maent yn eu dosbarthu'n effeithiol iawn mewn amryw ffyrdd. Deallant y cysyniadau o newid cildroadwy ac anghildroadwy yn eglur ac arddangosant strategaethau da iawn yn eu cynllunio i wahanu cymysgeddau o ddeunyddiau. Defnyddiant ystod o gyfarpar yn effeithiol iawn.

265 Ar ben uchaf CA2, arddangosa'r rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda iawn o wahanol fathau o greigiau a phridd a gwnânt ddefnydd ardderchog o'u medrau TGCh i ymestyn eu gwybodaeth. Arddangosant fedrau ymchwiliol hynod o effeithiol wrth archwilio'r cysyniad o athreiddedd a gwydnwch gwahanol fathau o greigiau a dewisant fathau addas o raffiau i gofnodi eu canfyddiadau.

266 Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws CA2 yn datblygu gwybodaeth dda iawn o'r amrywiol rhannau o'r corff a'u pwrpas, a dangosant ddealltwriaeth eglur o'r ffactorau sydd yn cyfrannu at fwyta a byw yn iachus. Mae disgyblion hŷn yn enwedig yn cynnal ymchwiliadau effeithiol i effeithiau ymarfer ar guriad y galon a gwnânt ddefnydd arbennig o dda o'u medrau TGCh i gyflwyno'u canfyddiadau ar ffurf graff.

267 Yn CA2, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn ddealltwriaeth dda iawn o'r cysyniad o brawf teg a dangosant fedrau effeithiol wrth gynllunio a chynnal ymchwiliadau.

### Diffygion

268 Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

## Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

**Cyfnod allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**
**Cyfnod allweddol 2: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

### Nodweddion rhagorol

269 Mae llawer o ddisgyblion CA2 yn creu eu tudalennau gwe eu hunain yn llwyddiannus trwy ddefnyddio gwefan ar-lein rhyngweithiol. Gwnânt ddefnydd effeithiol o gamerâu digidol a'r rhyngrwyd i lwytho delweddau i fyny ar eu safleoedd. Mae disgyblion yn cynllunio'u gwefan gan ystyried ei bwrpas a'r darpar gynulleidfa. Maent yn arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill, gan roi sylwadau ar wefannau eu cyd-ddisgyblion.

270 Gwna llawer o ddisgyblion CA2 ddefnydd llwyddiannus o becyn animeiddio i greu cyfres symudol i gefnogi eu gwaith mewn ABCh.

271 Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion yn B5 a B6 fedrau cyfrifiadurol sydd wedi eu datblygu'n dda iawn, ac maent yn eu defnyddio'n effeithiol ym mhob agwedd o'u dysgu. Maent yn ddefnyddwyr cymwys ac yn defnyddio rhaglenni cymhleth, megis taenlenni, yn hyderus.

### Nodweddion da

272 Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn defnyddio'r rhyngrwyd yn effeithiol i ddewis a defnyddio gwybodaeth yn eu gwaith. Gwnânt ddewisiadau a ystyriwyd yn dda i sicrhau fod y wybodaeth maent yn defnyddio yn addas i'r pwrpas a fwriadwyd.

273 Yn y ddau gyfnod allweddol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o faterion diogelwch wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd ac anfon e-byst. Maent yn egluro sut maent yn defnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel a'r peryglon i'w hosgoi wrth ei ddefnyddio adref.

274 Mae bron yr holl ddisgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn rheoli eu gweithle yn y cyfrifiadur yn hyderus i storio ac adalw eu gwaith.

275 Yn CA1, mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn creu delweddau graffigol o ansawdd dda trwy ddefnyddio ystod o feddalwedd. Defnyddia'r rhan fwyaf o ddisgyblion rhaglenni paentio'n hyderus i gynhyrchu gwaith celf. Maent yn gymwys iawn gyda'u medrau cyfrifiadurol ac archwiliant swyddogaethau'r rhaglen gyda hyder. Dangosant fedrau da wrth ddefnyddio'r bwrdd gwyn rhyngweithiol.

276 Maent yn creu graffiau i ddangos, er enghraifft, gwahanol ffyrdd o drafnidiaeth a chreant sgoriau cerddoriaeth darluniadol syml. Defnyddiant raglen i lunio cynlluniau tai gan labelu'r nodweddion yn effeithiol.

277 Mae gan ddisgyblion CA1 wybodaeth dda o swyddogaethau prosesydd geiriau. Maent yn lleoli'r allweddi ar y bysellfwrdd yn hyderus. Mae ganddynt fedrau da wrth gyfuno testun a graffeg. Mae bron yr holl ddisgyblion yn gosod testun yn ddibynadwy ac yn ysgrifennu brawddegau cyflawn. Maent yn ailddrafftio'u gwaith yn hyderus, yn ei gadw ac yn argraffu copi yn annibynnol.

278 Yn CA1, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn fedrus yn yr agwedd rheoli o'r pwnc. Defnyddiant y crwban llawr i greu, profi, addasu a storio cyfarwyddiadau. Mae'r disgyblion yn ysgrifennu rhaglenni syml gan ddefnyddio 'ymlaen', 'yn ôl' a 90 gradd. Maent yn asesu eu taith o amgylch ynys yn ofalus i sicrhau ei fod yn gywir.

279 Defnyddia disgyblion CA2 becyn celf i greu gwaith celf yn null artist lleol. Maent yn dechrau adeiladu cronfeydd data megis y llyfrau yn yr ysgol i'w ddefnyddio fel canolfan cyfeirio. Defnyddiant eu medrau prosesu geiriau ardderchog i gynnal holl feysydd y cwricwlwm.

280 Mae llawer o ddisgyblion CA2 yn creu cyflwyniadau PowerPoint da gan gynnwys hypergysylltiadau a botymau gweithredu yn hyderus i roi gwybodaeth am gartrefi ar draws yr oesoedd.

281 Yn B6, defnyddia'r disgyblion logo ar y sgrin yn hyderus, gan osod cyfarwyddiadau i greu a threfnu defnyddio gorchmynion, megis pen i fyny, pen i lawr a swyddogaethau ailadrodd. Defnyddiant raglen i gynllunio delweddau tri dimensiwn yn hyderus ar y sgrin.

### Diffygion

282 Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

## Dylunio a thechnoleg

**Cyfnod allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**
**Cyfnod allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

### Nodweddion da

283 Yn CA1, datblyga'r rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau dylunio ac arfarnu da yn eu gwaith.

284 Arddangosa'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws CA1 fedrau ymchwiliol da a chynhyrchu syniadau'n dda wrth iddynt ddylunio a chynllunio gwahanol gerbydau symudol.

285 Mae disgyblion ar draws CA1 yn ymchwilio teganau a gemau sydd o ddiddordeb i blant ieuengach yn effeithiol. Gan ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau, mae disgyblion B1 yn creu gemau bwrdd o ansawdd dda tra bod disgyblion B2 yn creu pypedau llaw. Dengys eu gwaith fod y mwyafrif yn datblygu medrau cynllunio a dylunio da.

286 Ar draws y cyfnod allweddol mae disgyblion yn dylunio amrediad o gynnyrch gan gynnwys model tân gwyllt ac eirth eira gan ddefnyddio deunyddiau jync. Mae disgyblion B1 a B2 yn defnyddio toes halen yn effeithiol i wneud bara wedi plethu a chaseg fedi o ansawdd dda.

287 Defnyddia disgyblion CA1 citiau adeiladu yn effeithiol i greu nodweddion megis trefi model. Yn eu gwaith ar dechnoleg bwyd, disgrifia disgyblion y broses o wneud ac addurno carw siocled yn eglur.

288 Ar draws CA1, mae disgyblion yn arfarnu gwaith eu hunain a gwaith eraill yn dda ar lefelau sydd yn briodol i'w hoed a'u gallu.

289 Yn CA2, mae disgyblion o bob gallu yn cynllunio a dylunio bwydydd. Mae disgyblion ieuengach yn cynllunio a gwneud salad ffrwythau'n effeithiol tra bod y disgyblion hŷn yn llwyddo gwneud pitsas ac amrywiaeth o deisennau a'u haddurno.

290 Dengys gwaith blaenorol fod disgyblion ar draws y cyfnod allweddol wedi defnyddio ystod o ddeunyddiau i gynllunio a gwneud pecynnau ar gyfer bwydydd iachus, cerbydau symudol a masgiau ac wedi gweithio'n llwyddiannus gyda mecanweithiau a liferi.

291 Mewn un dosbarth CA2, mae disgyblion yn cynllunio mosaig ar gyfer eu hamgylchedd. Mae'r cynnyrch gorffenedig yn arbennig o drawiadol.

292 Yn B4 a B5, mae disgyblion yn dylunio cymeriad allan o glai ac yn ffilmio animeiddiad byr gan ddefnyddio Digiblue i gofnodi'r delweddau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion mewn dosbarth B4/5 yn arddangos medrau ymchwil da wrth iddynt ystyried addasrwydd gwahanol llochesi i anifeiliaid a chefnogi eu harsylwadau gyda rhesymau a ystyriwyd yn dda. Gweithiant yn dda mewn grwpiau i ganfod y deunyddiau mwyaf addas i greu tai adar ac arddangosant lefel dda ddealltwriaeth o'r broses dylunio yn eu gwaith cynllunio cychwynnol.

293 Gan gysylltu eu gwaith yn effeithiol i'w gwybodaeth o'r blits yn ystod yr Ail Ryfel Byd, mae disgyblion mewn dosbarth B6 yn cynhyrchu syniadau'n effeithiol yn eu gwaith cychwynnol ar ddylunio llochesi cyrch awyr. Arddangosant fedrau datrys problemau da a gwnânt ddefnydd da o'u gwaith mewn gwyddoniaeth wrth iddynt brofi effeithiolrwydd y gwahanol ddeunyddiau dan ystyriaeth a nodant eu canfyddiadau ar dudalennau cofnodi.

294 Ar draws y cyfnod allweddol, mae disgyblion yn cofnodi'r prosesau sydd ynghlwm wrth greu eu cynnyrch gorffenedig yn effeithiol ac yn gweithio'n gynhyrchiol yn unigol ac mewn grwpiau i arfarnu eu gwaith.

### Diffygion

295 Nid yw disgyblion, yn enwedig yn CA2, yn gweithio gydag amrediad digon eang o adnoddau.

## Hanes

### Cyfnod allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
### Cyfnod allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

### Nodweddion da

296 Ar draws CA1, mae ymwybyddiaeth disgyblion o gronoleg yn dechrau datblygu'n dda wrth iddynt drefnu gweithgareddau a digwyddiadau yn eu bywydau eu hunain.

297 O ganlyniad i'w hymweliad ag Amgueddfa Werin Cymru, mae disgyblion CA1 yn ymestyn eu hymwybyddiaeth o sut oedd y gorffennol yn wahanol i'r presennol mewn agweddau o fywyd cartref. Mae gan y mwyafrif ddealltwriaeth dda o sut mae cyflwyno trydan i mewn i gartrefi wedi newid bywyd bob dydd. Mae'r rhan fwyaf yn cymharu agweddau o siopa yn Siop Gwalia ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf gydag ymweld ag archfarchnad heddiw yn gymwys iawn. Maent yn tynnu cymariaethau eglur rhwng bywyd ysgol yn ystod oes Fictoria â phrofiadau eu hunain o ysgol.

298 Gwna disgyblion ar draws y cyfnod allweddol ddefnydd da o'r cyfle i wrando ar ymwelydd â'r ysgol yn siarad am yr amser roedd hi’n blentyn er mwyn ymestyn eu dealltwriaeth o brofiadau plant yn y gorffennol a sut maent yn wahanol i'w profiadau nhw o blentyndod.

299 Defnyddia disgyblion CA1 storïau am bobl yn y gorffennol i ymestyn eu hymwybyddiaeth o agweddau o fywyd mewn gwahanol gyfnodau ac i dynnu rhai cymariaethau â phrofiadau eu hunain. Maent yn astudio bywyd cynnar O M Edwards a'r ymdrechion a wnaed i annog peidio defnyddio'r Gymraeg mewn ysgolion. Defnyddiant sefyllfaoedd chwarae rôl yn stori'r môr leidr Cymreig Barti Ddu i ddatblygu dealltwriaeth dda o pam fod pobl yn y gorffennol wedi ymddwyn fel y gwnaethant.

300 Mae disgyblion pen isaf CA2 yn datblygu dealltwriaeth briodol o nodweddion yn gysylltiedig â bywyd yng nghyfnod y Rhufeiniaid. Maent yn ymwybodol o ble daeth y Rhufeiniaid ac o'r rôl a chwaraewyd gan y milwyr Rhufeinig. Mae gan y mwyafrif ymwybyddiaeth dda o waith archeolegwyr a dechreuant wneud defnydd da o amrywiaeth o arteffactau i ymestyn eu gwybodaeth o'r cyfnod.

301 Gwna disgyblion mewn dosbarth B4/B5 ddefnydd da o linell amser i ddynodi cyfnodau hanesyddol allweddol. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o'r gwahaniaethau rhwng cartrefi'r cyfoethog a'r tlawd yn oes Fictoria a datblygant wybodaeth dda o effeithiau gorlenwi mewn trefi a dinasoedd ar iechyd. Gwnânt ddefnydd effeithiol o arteffactau a thystiolaeth ddarluniadol i ymestyn eu dealltwriaeth o gyfnod Fictoria.

302 Yn B4 a B5, arddangosa'r disgyblion ddealltwriaeth dda o rhai dyfeisiadau Fictoraidd a'r newidiadau ddaeth yn eu sgìl. Mae ganddynt wybodaeth dda o amodau gwaith llawer o blant Fictoraidd ac o waith yr Arglwydd Shaftsbury yn hyn o beth.

303 Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn CA2 wybodaeth a dealltwriaeth dda iawn o rhai o'r digwyddiadau pwysig yn gysylltiedig â'r Ail Ryfel Byd. Maent yn gwybod stori Ann Frank. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda iawn o effaith y rhyfel ar fywyd cymdeithasol. Maent yn trafod, er enghraifft, effeithiau'r cyrchoedd awyr, y gwacâd a dogni yn effeithiol. Gwnânt ddefnydd da o ymweliad ag amgueddfa leol i ymestyn eu gwybodaeth.

304 Arddangosa disgyblion CA2 fedrau da iawn wrth gasglu gwybodaeth oddi wrth amrywiaeth o ffynonellau a gwnânt ddefnydd effeithiol o dystiolaeth lafar. Mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o'r gwahaniaethau rhwng ffynonellau cynradd ac eilradd a defnyddiant farddoniaeth a nofel dosbarth i ymestyn eu gwybodaeth o'r cyfnod. Mae disgyblion yn cyfathrebu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan wneud defnydd arbennig o dda o fedrau ysgrifennu

ymestynnol a TGCh. Mae rhai disgyblion yn cwblhau prosiectau unigol i archwilio agweddau pellach o'r testun.

### Diffygion

305 Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

## Daearyddiaeth

### Cyfnod allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
### Cyfnod allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

### Nodweddion da

306 Yn CA1, mae ymwybyddiaeth disgyblion o'u hardal eu hunain a thu hwnt yn datblygu'n dda. O fewn eu hardal, mae disgyblion yn gallu enwi a lleoli nodweddion dynol a ffisegol. Siaradant yn hyderus am brif nodweddion Rhydaman megis y 'Rec' a'r pwll nofio, siopau, parciau a thai lleol. Maent yn lleoli Rhydaman ar fap o Gymru.

307 Defnyddia disgyblion CA1 symbolau syml i gofnodi agweddau o'r tywydd a defnyddiant raffiau darluniadol i gofnodi gwybodaeth.

308 Yn CA1, datblyga’r disgyblion wybodaeth dda am Genia a'i nodweddion daearyddol, gan gynnwys yr hinsawdd ac agweddau o fywyd yn y wlad. Maent yn gallu gwneud cymariaethau rhwng Cenia a Chymru.

309 Mae disgyblion yn dynodi nodweddion ar awyrluniau megis y môr, traethau, ffyrdd ac adeiladau, gan gynnwys mewn lluniau o'r ardal leol. Maent yn dynodi trefi pwysig ar fapiau o Gymru ac yn enwi a labelu gwledydd y Deyrnas Unedig.

310 Yn CA2, mae gwybodaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion o'r ardal a thu hwnt yn dda. Maent yn ymgymryd ag astudiaethau effeithiol o'r ardal leol ac yn gallu defnyddio mapiau ac atlasau i leoli llefydd.

311 Mae disgyblion ieuengach CA2 yn defnyddio mapiau o Rydaman yn gymwys i ddynodi llefydd cyfarwydd, olrhain eu taith o adref ac i leoli'r llefydd hyn trwy ddefnyddio cyfesurynnau alffaniwmerig.

312 Mae disgyblion wedi astudio prif nodweddion Eryri ac yn gallu cyflwyno eu canfyddiadau gan ddefnyddio TGCh i greu pamffledi ac i arddangos y data a gasglwyd.

313 Ym mhen uchaf CA2, mae disgyblion yn gofyn cwestiynau perthnasol, yn dynodi patrymau daearyddol ac yn cynnig esboniadau cymwys, yn enwedig mewn perthynas â'u gwaith ar Genia. Defnyddiant ystod o adnoddau yn eu gwaith ymchwiliol er mwyn cymharu a chyferbynnu bywyd yng Nghenia â Chymru. Trwy drafodaeth a chydweithio, maent yn datblygu dealltwriaeth o faterion megis datblygiad economaidd a chynaladwyedd.

### Diffygion

314 Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

## Celf a dylunio

**Cyfnod allweddol 1: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**
**Cyfnod allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

### Nodweddion rhagorol

315 Mae disgyblion CA1 yn peintio tirluniau yn null Kadinsky sydd yn dangos sylw gofalus iawn i fanylder a phatrwm a dealltwriaeth dda o liwiau cynnes heulog. Gan ddefnyddio 'Coed Olewydd' Van Gogh fel man cychwyn, maent yn llwyddo peintio tirlun gyda choed sydd yn dangos gwerthfawrogiad o siâp, lliw a gwead.

316 Yn CA1, mae disgyblion yn defnyddio'u hymchwiliad i hunanbortreadau amryw o arlunwyr byd-enwog i arbrofi gyda phensil, paent, pasteli a golosg i greu eu hunanbortreadau eu hunain. Mae ansawdd rhagorol i'w darluniadau llinell, ac mae'r portreadau maent wedi peintio yn dynodi gafael dda o liw a siâp.

317 Datblyga disgyblion CA1 fedrau argraffu da iawn gan ddefnyddio amrediad o wrthrychau naturiol a gwneud. Maent yn creu blociau printio teils bychan ac yn eu defnyddio i wneud printiadau ar bapur a ffabrig mewn amrediad o liwiau, sydd yn dangos dealltwriaeth ardderchog o siâp a phatrwm. Maent yn atgynhyrchu patrymau ailadroddus cymhleth gan ddefnyddio pecyn TGCh.

318 Mae disgyblion CA2 yn datblygu medrau cynllunio, dylunio a gwneud effeithiol iawn wrth gwblhau prosiectau dosbarth cyfan gyda Sonia Williams fel arlunydd preswyl. Mae'r gludweithiau o Ganolfan y Mileniwm, yr Arcade yn Rhydaman, y Twrch Trwyth a themâu eraill yn arddangos dealltwriaeth ardderchog o liw a gwead. Gwneir defnydd effeithiol iawn o deils clai bach wedi eu haddurno, papier mâché, gleiniau gwydr, papurau brithion, a ffabrigau a rhubanau wedi eu lliwio i gynhyrchu delweddau bywiog a thrawiadol.

### Nodweddion da

319 Gwna disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol ddefnydd pwrpasol o lyfrau braslunio i wneud darluniadau arsylwadol fel man cychwyn i ddatblygu amrediad o luniau mewn gwahanol gyfryngau.

320 Yn eu gwaith tri-dimensiwn, mae disgyblion CA1 yn defnyddio papier mâché, clai, amrediad o ffabrigau a phapur wedi eu haddurno gyda secwinau, ffabrigau appliqué a gleiniau. Mae disgyblion mewn un dosbarth B1/2 yn dangos dewis ardderchog o liw a gwead yn eu gwehyddu papur a ffabrig.

321 Mae astudiaeth o ludwaith Guiseppe Arcimboldo o wyneb wedi profi'n ysgogiad bywiog i wneud gludwaith dros dro o ffrwythau a dyluniadau pastel o wynebau gyda ffrwythau fel gwallt. Dengys y gwaith gludwaith ddealltwriaeth ardderchog o liw, siâp a gwead.

322 Yn CA1, mae disgyblion yn peintio ac addurno masgiau anifeiliaid y jyngl yn Affrica gydag amrywiaeth o bapurau a ffabrigau. Defnyddiant frwshys o wahanol faint i efelychu llinellau cryf, syth, tonnog, dolennog a tholciog patrymau ar ffabrig Affricanaidd. Yn yr Unedau Asesu, defnyddia disgyblion CA1 fedrau TGCh da i addurno bisgedi sinsir ac i beintio dyn sinsir.

323 Defnyddia disgyblion CA1 eu dealltwriaeth gadarn o liwiau cynnes ac oer i greu darluniau gaeafol gan ddefnyddio paent, pasteli a sialc ar amrywiaeth o bapurau, yn arddull 'Aubade 2007' Gareth Davies. Maent yn talu sylw da i linell, siâp a

gwead ac yn ymateb yn sensitif i naws lluniau ffotograff o dirweddau lleol yn yr eira.

324 Dengys disgyblion B3 ddealltwriaeth dda o linell a siâp yn eu lluniau pensil o dŷ fferm yn null 'Fferm Llwydiarth' o waith Kyffin Williams. Maent yn cymharu a chyferbynnu gwaith Kyffin Williams gyda gwaith Anthony Richards, arlunydd lleol. Defnyddia rhai disgyblion baent a phasteli i greu amrediad o donau yn eu tirlun, ac efelychant waith George Seurat yn effeithiol.

325 Dengys brasluniau pensil disgyblion B4/5 o gryndo Brunelleschi yn eglwys gadeiriol Florence ddealltwriaeth dda o siâp, cyfrannedd a phersbectif llinellog. Mae eu brithweithiau tangram yn efelychu lloriau teils eglwysi cadeiriol Eidalaidd. Mae hunanbortreadau disgyblion hŷn CA2 sydd yn arbrofi gyda chymesuredd llun a hanner wyneb wedi ei beintio yn dangos gafael da ar linell a siâp. Dengys disgyblion yn yr Uned Arbennig ddeheurwydd a dychymyg yn eu coeden tri-dimensiwn a ailgylchwyd allan o ddeunyddiau jync.

**Diffygion**

326 Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig, ond caiff y datblygiad o fedrau disgyblion CA2 mewn lluniau llinell ei rwystro gan ddewis cyfyngedig o bensiliau.

## Cerddoriaeth

**Cyfnod allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**
**Cyfnod allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

**Nodweddion da**

327 Yn y ddau gyfnod allweddol, mae disgyblion yn canu'n swynol a gyda brwdfrydedd.

328 Yn CA1, mae disgyblion sydd ag AAA o'r uned yn chwarae offeryn taro (drwm) gyda hyder. Gwrandawant ar gerddoriaeth Affricanaidd ac amrywiant dechnegau i chwarae'r offeryn taro er mwyn creu gwahanol effeithiau.

329 Mae disgyblion CA1 yn archwilio'u lleisiau a tharo'u cyrff i berfformio cân sydd yn dangos fod ganddynt ddealltwriaeth dda o'r elfen gerddorol 'hyd'. Maent yn deall sgôr graffig syml ac yn gwerthuso cerddoriaeth eu hunain ac eraill trwy ddefnyddio'r eirfa gerddorol briodol.

330 Yn CA2, mae medrau perfformio, cyfansoddi a gwerthuso disgyblion yn datblygu'n dda. Maent yn gwrando ar eu cyfansoddiadau a pherfformiadau eu hunain ac yn eu gwerthuso'n ystyrlon a'u recordio trwy ddefnyddio TGCh. Mae disgyblion yn gallu cyfuno seiniau i gynhyrchu patrwm ar sgôr graffig ar gyfer perfformio gan ddefnyddio offerynnau taro. Mae llawer yn defnyddio rhaglenni cyfrifiadurol yn hyderus i gyfansoddi darnau o gerddoriaeth i gynrychioli gwahanol senarios.

331 Mae gan ddisgyblion CA2 ymdeimlad da o rythm ac ymatebant yn briodol i gerddoriaeth mewn dulliau dychmygus megis, celf, geiriau a symudiad. Maent hefyd yn derbyn gwersi canu wythnosol gan athro teithiol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar safonau perfformiad.

332 Mae gan yr holl ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o gerddoriaeth o wahanol ddiwylliannau, gan gynnwys cerddoriaeth o Gymru. Mae llawer o ddisgyblion yn

derbyn ystod o wersi offerynnol yn yr ysgol. Mae'r holl weithgareddau yn ymestyn gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau'r disgyblion.

**Diffygion**

333 Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

## Addysg gorfforol

**Cyfnod allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**
**Cyfnod allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

**Nodweddion da**

334 Yn y ddau gyfnod allweddol, mae disgyblion yn gyfarwydd â gwahanol agweddau o ddiogelwch ac yn deall yr angen am reolau. Mae'r holl ddisgyblion yn gwisgo'n briodol ar gyfer gweithgareddau ac yn dod at eu gwersi mewn dull disgybledig.

335 Mae disgyblion CA1 a CA2 yn ymwybodol o bwysigrwydd ymgynhesu eu cyrff cyn ymarfer ac ymoeri ar ôl ymarfer. Mae'r disgyblion hŷn yn gallu egluro effaith ymarfer ar y corff.

336 Mae disgyblion CA1 a CA2 yn datblygu eu medrau dawns a gymnasteg yn dda. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi perfformiad da fel yr arddangoswyd gan eu cymheiriaid ac yn gwella perfformiad eu hunain o ganlyniad i hynny.

337 Mae cydlyniad llaw a llygad yn dda iawn yn CA1. Addysgir ystod o fedrau i'r disgyblion, o'r dosbarth derbyn i fyny, trwy ddefnyddio 'peli plus' ac maent yn hyfedr mewn amrediad o sgiliau erbyn iddynt gyrraedd diwedd y cyfnod allweddol. Arddangosant fedrau pêl a chydlyned da wrth daflu, dal, driblo a saethu i gael gôl. Defnyddiant amrediad o beli addas i ddatblygu'r medrau hyn.

338 Yn CA2, defnyddia'r disgyblion fedrau pêl yn hyderus, a daw llawer yn hyfedr wrth eu defnyddio mewn gemau cystadleuol.

339 Yn CA2, defnyddia'r disgyblion yr eirfa bynciol gywir i ddisgrifio gweithgareddau erobig ac adeiladu stamina. Eglurant yr angen i ddefnyddio'r technegau cywir wrth ymgymryd â thasgau ac maent yn gwybod sut i ymestyn perfformiad eu hunain.

340 Dengys disgyblion B3 a B4 ddealltwriaeth dda o ymwybyddiaeth gofod. Maent yn rhedeg ar amrywiol gyflymder, gan newid cyfeiriad er mwyn defnyddio'r holl ofod sydd ar gael. Mae disgyblion yn rheoli cydbwysedd gan ddefnyddio gwahanol rannau o'r corff yn gymwys. Maent yn gwerthuso perfformiad eu hunain a rhai eraill yn dda.

341 Er ni arsylwyd ar unrhyw wersi nofio, mae data a gynhyrchwyd gan yr ysgol yn dynodi fod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd y safonau priodol erbyn diwedd B6.

342 Mae disgyblion B5 yn mynychu Canolfan Addysg Pentywyn lle maent yn datblygu eu medrau meithrin tîm a datrys problemau'n dda ac yn datblygu hunan hyder trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau antur awyr agored.

343 Datblyga'r disgyblion eu medrau ymhellach mewn chwaraeon ac yn eu ffitrwydd cyffredinol mewn amrediad o weithgareddau a drefnir yn ystod yr awr ginio ac ar

ôl ysgol. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys tenis, pêl-droed, dawns ac amrywiol gemau tîm cystadleuol.

### Diffygion

344 Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

## Addysg grefyddol

**Cyfnod allweddol 1: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**
**Cyfnod allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

### Nodweddion rhagorol

345 Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion CA1 ddealltwriaeth ardderchog o brif wyliau Cristnogaeth, Iddewiaeth a Hindŵaeth a pham cânt eu dathlu. Mae gwneud breichledau Rakhi ar gyfer gŵyl Holi'r Hindŵ a dathliadau'r Nadolig a Phasg yn eu helpu i ddeall pwysigrwydd gwyliau crefyddol yn effeithiol iawn.

346 Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adalw storïau'r Beibl megis geni Iesu, y Samariad Trugarog a stori'r Pasg yn dda iawn. Maent i gyd yn adalw stori Noa'n dda iawn. Maent yn trefnu'r stori mewn lluniau a geiriau, yn gwneud modelau clai o'r arch ac yn chwarae rôl y stori gyda model o arch ac anifeiliaid. Dangosant ddealltwriaeth gadarn o sut mae gweithredoedd yn perthnasu i deimladau. Siaradant am heriau a sut wnaeth Noa oresgyn ei heriau trwy gredu mewn Duw a gyda chymorth Duw.

347 Yn CA1, mae gan bron yr holl ddisgyblion ddealltwriaeth eglur iawn o symbolaeth teithiau yn y Beibl. Maent yn adalw'n hyderus sut wnaeth y bugeiliaid a'r doethion deithio i Fethlehem, ac yn gallu adrodd stori siwrnai Paul i Ddamascus. Adroddant stori'r Samariad Trugarog ac arddangosant ddealltwriaeth ardderchog o'r hyn mae'n golygu i fod yn ffrind a chymydog da. Disgrifiant sut fedrant fod yn ffrind da i eraill yn hyderus. Maent yn cysylltu hwn i'w rheolau aur o weithio'n galed, bod yn onest, gwrando a bod yn garedig. Creant bosteri i ddarlunio eu teimladau eu hunain ac ysgrifennant weddïau i ddweud diolch.

348 Yn eu hastudiaeth o ŵyl Rakshabandhan yr Hindŵ, maent yn trafod pwysigrwydd y berthynas rhwng brodyr a chwiorydd. Maent yn gwneud breichledau lliwgar mewn tair cainc wedi eu plethu sydd yn arddangos y berthynas gref honno. Maent yn gwybod fod chwiorydd yn rhoi breichled i'w brodyr sydd yn eu tro yn gofalu am eu chwiorydd ar draws y flwyddyn.

349 Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion CA1 wybodaeth gadarn o nodweddion eglwys megis y bedyddfaen, yr allor a'r eisteddle, ac maent yn cymharu a chyferbynnu'r nodweddion hyn gyda rhai'r mosg teithiol.

### Nodweddion da

350 Mae disgyblion CA2 yn adalw nifer gynyddol o storïau’r Beibl yn hyderus o'r hen Destament a'r Testament Newydd.

351 Yn CA2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dda o gredoau ac arferion y prif grefyddau. Caiff eu dysgu ei hatgyfnerthu trwy drin yr arteffactau priodol, siarad gydag ymwelwyr ac ymweliadau.

352 Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod sut mae Cristnogion, Iddewon a Mwslemiaid yn addoli ac yn dathlu eu ffydd. Maent hefyd yn ymwybodol o'r ffyrdd y caiff dulliau byw pobl eu heffeithio gan eu credoau crefyddol.

353 Gwna disgyblion CA2 gymariaethau da rhwng addoldai'r Cristion, yr Iddew a'r Mwslim, gan ganfod pethau tebyg a gwahanol. Mae'r rhan fwyaf yn enwi'r pulpud, yr allor, y bedyddfaen, yr eisteddle a'r ffenestri gwydr lliw fel prif nodweddion eglwys ac yn deall eu pwrpas. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall arwyddocâd Seren Dafydd, lamp y menorah, sgrôl y Torah a rôl y rabi. Mae'r rhan fwyaf yn enwi nodweddion mosg. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gonfensiynau addoli. Maent yn gwybod fod dynion a menywod yn y ffydd Iddewig a'r ffydd Mwslim yn eistedd ar wahân yn ystod addoli.

354 Daw disgyblion CA2 yn gynyddol ymwybodol o'r defnydd o symbolaeth mewn crefydd ac maent yn gallu egluro ei ddefnydd a'i arwyddocâd i gredinwyr o'r prif grefyddau a ddilynir gan bobl Cymru.

355 Yn y ddau gyfnod allweddol, mae disgyblion yn y gwasanaethau gwerthoedd ac yn eu gwaith elusen yn adlewyrchu ar eu bywydau eu hunain a bywyd eraill.

**Diffygion**

356 Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

## Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

Mae aelodau'r staff a'r llywodraethwyr wedi ystyried deilliannau'r arolygiad yn ofalus ac wrth ein bodd fod y canfyddiadau yn cydnabod fod gan Ysgol Bro Banw cymaint o gryfderau a nodweddion rhagorol.

Hoffai staff, disgyblion a staff Ysgol Bro Banw ddiolch i'r tîm arolygu am y dull proffesiynol y cynhaliwyd yr arolygiad. Yn benodol hoffwn fynegi ein gwerthfawrogiad i'r Arolygydd Cofrestredig am sicrhau fod y broses o'r cychwyn i'r diwedd yn cael ei gynnal gyda thrylwyredd, cymhwysedd a chwrteisi.

Rydym yn falch iawn fod y nodweddion rhagorol o'r ysgol hon sydd newydd uno wedi eu cydnabod ac rydym yn hynod o falch o gyflawniadau ein disgyblion a'r gydnabyddiaeth ein bod ni, fel ysgol, yn sicrhau eu bod yn llwyddo beth bynnag eu cefndir. Mae cydnabyddiaeth y tîm arolygu fod y disgyblion yn gwneud cynnydd rhagorol yn eu datblygiad personol, cymdeithasol a moesol ac yn eu datblygiad ehangach, yn cadarnhau ac yn cefnogi ymdrechion staff diwyd ac ymroddgar yr ysgol.

Mae'n dda fod yr ysgol eisoes wedi adnabod yr argymhellion fel meysydd i'w datblygu yn ei hadroddiad hunan arfarnu ei hunan a chaiff strategaethau i'w gweithredu eu rhoi ar waith trwy gynlluniau datblygu cyfredol a rhai'r dyfodol yr ysgol.

Fel ysgol newydd, mae cyflawni'r radd uchaf posibl mewn chwech o'r saith agwedd o'r arolygiad yn adlewyrchiad o ymroddiad, proffesiynolrwydd a chymhwysedd holl staff Ysgol Bro Banw. Fodd bynnag, mae hefyd yn dystiolaeth o'r rhwydwaith cefnogi ardderchog a ddarperir gan y llywodraethwyr, y rhieni, asiantaethau allanol a phawb sydd yn cyfrannu at fywyd beunyddiol yr ysgol.

Byddwn yn parhau gyda'r gwaith da yn gydwybodol, er lles pob disgybl, mewn ymdrech barhaus i gyflawni rhagoriaeth.

## Atodiad 1

### Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r ysgol | Ysgol Bro Banw |
| Math o ysgol | Cynradd gan gynnwys y Cyfnod Sylfaen ac Uned Arbennig |
| Ystod oedran y disgyblion | 3-19 (gan gynnwys yr Uned Arbennig) |
| Cyfeiriad yr ysgol | Stryd Fawr<br>Rhydaman<br>Sir Gaerfyrddin |
| Cod post | SA18 2NS |
| Rhif ffôn | 01269 592481 |

| | |
|---|---|
| Pennaeth | Mrs. Meryl Davies |
| Dyddiad penodi | Medi 2008 |
| Cadeirydd y llywodraethwyr | Cynghorydd M H Evans |
| Arolygydd cofrestredig | Mrs Rhiannon Harris |
| Dyddiadau'r arolygiad | 26-28 Ebrill 2010 |

## Atodiad 2

### Data a dangosyddion ysgol

| Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Grŵp blwyddyn | M (call) | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 | Cyfanswm |
| Nifer y disgyblion | 32 | 49 | 58 | 50 | 48 | 53 | 58 | 48 | 396+15(11+) |

| Cyfanswm nifer yr athrawon | | | |
|---|---|---|---|
| | Amser llawn | Rhan-amser | Cyfwerth ag amser llawn (call) |
| Nifer yr athrawon | 24 | 0 | 24 |

| Gwybodaeth staffio | |
|---|---|
| Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig) | 17:2:1 |
| Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau meithrin | |
| Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau arbennig | 1:27:1 |
| Cyfartaledd maint dosbarth, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig | 12:1 |
| Cymhareb athro (call): dosbarth | 1:6:1 |

| Canran presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyflawn cyn yr arolygiad | | | |
|---|---|---|---|
| Tymor | M | D | Gweddill yr ysgol |
| Haf 2009 | 82.46 | 90.26 | 91.1 |
| Hydref 2009 | 77.87 | 87.3 | 91.45 |
| Gwanwyn 2010 | 87.69 | 90.69 | 91.35 |

| | |
|---|---|
| Canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim | 22% |
| Nifer y disgyblion a gafodd eu gwahardd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad | 0 |

# Atodiad 3


**Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio data 2009 ar gyfer gwybodaeth gymharol yr AALl a Chymru**

**Ysgol Bro Banw** **Rhif yr AALl/Ysgol:669/2392**
**Sir Gaerfyrddin**


## Gwybodaeth gymharol yr ysgol: Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2009 gyda meincnodi Cyfnod Allweddol 1

**Canran y bechgyn, merched a disgyblion sy'n cyflawni'r lefel disgwyliedig o leiaf (Lefel 2+):**

| | Bechgyn | | | Merched | | | Disgyblion | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ysgol 2009 | AALl 2009 | Cymru 2009 | Ysgol 2009 | AALl 2009 | Cymru 2009 | Ysgol 2009 | AALl 2009 | Cymru 2009 |
| Saesneg | 86 | 73 | 78 | 81 | 86 | 88 | 83 | 79 | 83 |
| Cymraeg | 100 | 83 | 87 | 100 | 95 | 93 | 100 | 88 | 90 |
| Mathemateg | 84 | 82 | 85 | 83 | 89 | 89 | 84 | 85 | 87 |
| Gwyddoniaeth | 89 | 86 | 88 | 83 | 91 | 92 | 86 | 89 | 90 |
| DPC | 84 | 75 | 77 | 83 | 86 | 85 | 84 | 80 | 81 |




## Perfformiad yr ysgol dros amser (2005 - 2009)




## Gwybodaeth gyd-destunol

Wedi'i meincnodi yn erbyn ysgol â chanran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim

Nodwyd canlyniadau'r ysgol yn y blychau llwyd. Mae penawdau'r colofnau yn cyfeirio at:

Chwartel 1 Mae'r ysgol ymhlith y 25% uchaf
Chwartel 2 Mae'r ysgol ymhlith y 50% uchaf ond nid y 25% uchaf
Chwartel 3 Mae'r ysgol ymhlith y 50% isaf ond nid y 25% isaf
Chwartel 4 Mae'r ysgol ymhlith y 25% isaf

Grŵp Prydau Ysgol am Ddim

**16% neu fwy a hyd at 24% yn gymwys i gael Pryd Ysgol am Ddim**

| | *Chwartel 4* | Ffin Chwartel Isaf | *Chwartel 3* | Ffin Canolrif | *Chwartel 2* | Ffin Chwartel Uchaf | *Chwartel 1* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Saesneg | | 75 | ***83*** | 84 | | 92 | |
| Cymraeg | | 85 | | 93 | | ***100*** | |
| Mathemateg | | 80 | ***84*** | 88 | | 96 | |
| Gwyddoniaeth | | 85 | ***86*** | 92 | | 100 | |
| DPC | | 74 | | 82 | ***84*** | 90 | |

**Nodiadau:**

1. Mae'r ffigurau ar gyfer Cymraeg yn cyfeirio at gyrhaeddiad Cymraeg iaith gyntaf yn unig
2. DPC = Dangosydd Pynciau Craidd. I sicrhau DPC, mae'n rhaid i ddisgybl gyflawni o leiaf lefel 2 disgwyliedig mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth a naill ai Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf

3. Os nad oedd unrhyw ddisgyblion yn gymwys i'w hasesu mewn pwnc ar gyfer blwyddyn benodol bydd y graff yn terfynu a dangos bwlch ar gyfer y flwyddyn honno.

Crëwyd yr adroddiad gan DEWi ar 25/09/2009 Tudalen 1 o 1


**Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio data 2009 ar gyfer gwybodaeth gymharol yr AALl a Chymru**

**Ysgol Bro Banw** **Rhif yr AALl/Ysgol:669/2392**
**Sir Gaerfyrddin**


## Gwybodaeth gymharol yr ysgol: Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2009 gyda meincnodi Cyfnod Allweddol 2

**Canran y bechgyn, merched a disgyblion sy'n cyflawni'r lefel disgwyliedig o leiaf (Lefel 4+):**

| | Bechgyn | | | Merched | | | Disgyblion | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ysgol 2009 | AALl 2009 | Cymru 2009 | Ysgol 2009 | AALl 2009 | Cymru 2009 | Ysgol 2009 | AALl 2009 | Cymru 2009 |
| Saesneg | 82 | 75 | 76 | 84 | 87 | 87 | 83 | 80 | 81 |
| Cymraeg | 75 | 67 | 73 | 100 | 81 | 86 | 88 | 74 | 80 |
| Mathemateg | 79 | 79 | 80 | 81 | 83 | 85 | 80 | 81 | 82 |
| Gwyddoniaeth | 85 | 84 | 84 | 88 | 89 | 89 | 86 | 87 | 86 |
| DPC | 73 | 72 | 73 | 78 | 80 | 82 | 75 | 76 | 77 |




## Perfformiad yr ysgol dros amser (2005 - 2009)




## Gwybodaeth gyd-destunol

Wedi'i meincnodi yn erbyn ysgol â chanran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim
Nodwyd canlyniadau'r ysgol yn y blychau llwyd. Mae penawdau'r colofnau yn cyfeirio at:

Chwartel 1 Mae'r ysgol ymhlith y 25% uchaf
Chwartel 2 Mae'r ysgol ymhlith y 50% uchaf ond nid y 25% uchaf
Chwartel 3 Mae'r ysgol ymhlith y 50% isaf ond nid y 25% isaf
Chwartel 4 Mae'r ysgol ymhlith y 25% isaf

Grŵp Prydau Ysgol am Ddim

**16% neu fwy a hyd at 24% yn gymwys i gael Pryd Ysgol am Ddim**

| | *Chwartel 4* | Ffin Chwartel Isaf | *Chwartel 3* | Ffin Canolrif | *Chwartel 2* | Ffin Chwartel Uchaf | *Chwartel 1* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Saesneg | | 74 | | 82 | ***83*** | 87 | |
| Cymraeg | | 67 | | 78 | ***88*** | 89 | |
| Mathemateg | | 76 | ***80*** | 83 | | 88 | |
| Gwyddoniaeth | | 80 | ***86*** | 88 | | 94 | |
| DPC | | 69 | ***75*** | 77 | | 83 | |

**Nodiadau:**

1. Mae'r ffigurau ar gyfer Cymraeg yn cyfeirio at gyrhaeddiad Cymraeg iaith gyntaf yn unig
2. DPC = Dangosydd Pynciau Craidd. I sicrhau DPC, mae'n rhaid i ddisgybl gyflawni o leiaf lefel 4 disgwyliedig mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth a naill ai Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf
3. Os nad oedd unrhyw ddisgyblion yn gymwys i'w hasesu mewn pwnc ar gyfer blwyddyn benodol bydd y graff yn terfynu a dangos bwlch ar gyfer y flwyddyn honno.

Crëwyd yr adroddiad gan DEWi ar 25/09/2009 Tudalen 1 o 1

## Atodiad 4

**Sail dystiolaeth yr arolygiad**

Treuliodd tîm o saith arolygydd cyfanswm o 19 diwrnod arolygu yn yr ysgol. Roedd asesydd cymheiriaid hefyd yn yr ysgol am dri diwrnod. Cafodd y tîm arolygu eu cynorthwyo gan enwebai'r ysgol. Cyfarfu'r tîm cyn cychwyn yr arolygiad.

Bu'r arolygwyr hyn yn ymweld â

- 76 o wersi neu rannau o wersi;
- sesiynau cefnogi;
- cyfnodau cofrestru, gwasanaethau a gweithredoedd cyd addoli; ac
- ystod o weithgareddau allgyrsiol.

Cynhaliodd aelodau'r tîm arolygu gyfarfodydd gyda:

- staff, llywodraethwyr a rhieni cyn yr arolygiad;
- athrawon a'r staff cynnal;
- grwpiau o ddisgyblion yn ymhob blwyddyn;
- y cyngor ysgol a'r cyngor eco; a
- partïon eraill â diddordeb sydd yn gysylltiedig â'r ysgol.

Bu'r tîm hefyd yn ystyried:

- adroddiad hunan arfarnu'r ysgol;
- 165 o ymatebion i holiadur y rhieni, roedd y mwyafrif o'r rhain yn gadarnhaol;
- dogfennaeth a baratowyd gan yr ysgol cyn ac yn ystod yr arolygiad;
- ystod eang o waith cyfredol a blaenorol y disgyblion; ac
- enghreifftiau o adroddiadau'r disgyblion.

Yn dilyn yr arolygiad, cynhaliodd y tîm gyfarfodydd gyda'r staff a'r llywodraethwyr.

## Atodiad 5

### Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

| Aelod tîm | Cyfrifoldebau |
|---|---|
| Rhiannon Harris<br>Arolygydd Cofrestredig | **Arwain ar:**<br>Cyd-destun, Crynodeb, Argymhellion, Atodiadau<br>Cwestiynau allweddol 1 a 5,<br>mathemateg, celf a dylunio |
| Gwynoro Jones<br>Arolygydd Lleyg | **Cyfrannu at:**<br>Cwestiynau allweddol 1, 3, 4 a 7<br>Argymhellion |
| Brin Jones<br>Arolygydd Tîm | **Arwain ar:**<br>Cwestiwn Allweddol 2,<br>gwyddoniaeth, hanes, dylunio a thechnoleg<br>**Cyfrannu at:**<br>Argymhellion |
| Meinir Howells<br>Arolygydd Tîm | **Arwain ar:**<br>Cwestiwn Allweddol 3,<br>Cyfnod Sylfaen, Cymraeg (ail iaith), cerddoriaeth<br>**Cyfrannu at:**<br>Argymhellion |
| Gill Unwin<br>Arolygydd Tîm | **Arwain ar:**<br>Cwestiwn Allweddol 4<br>Anghenion Arbennig (gan gynnwys yr Uned Arbennig) |
| Brian Davies<br>Arolygydd Tîm | **Arwain ar:**<br>Cwestiwn Allweddol 6<br>Saesneg, daearyddiaeth, addysg gorfforol |
| Ann Williams<br>Arolygydd Tîm | **Arwain ar:**<br>Cwestiwn Allweddol 7<br>Cymraeg (iaith gyntaf), TGCh, addysg grefyddol |
| Grace Roberts<br>Asesydd Cymheiriaid | Mynychu cyfarfodydd a chyflawni arsylwadau gwersi |
| Meryl Davies<br>Enwebai | Mynychu cyfarfodydd |

***Cydnabyddiaeth***
***Dymuna'r tîm arolygu ddiolch i'r llywodraethwyr, y pennaeth, y staff, y dysgwyr a'r rhieni am eu cydweithrediad cyn ac yn ystod yr arolygiad.***

**Y Contractwr oedd:**
EPPC-Severn Crossing Cyf, Swît F2A, Tŷ Britannic, Llandarsi, Castell-nedd SA10 6JQ